

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Rhifyn 9

“Ni hao” “Helo”

**Emily Strub,
Myfyrwraig Ôl-raddedig**

Y Pasg diwethaf manteisiais ar y cyfle i drwytho fy hun mewn tair wythnos ryfeddol o Ddiwylliant Tsieinaidd bythgofiadwy! Bùm yn ddigon ffodus i gael fy newis ar gyfer y rhaglen Astudio Tsieina, sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth. Treuliais dair wythnos ym Mhrifysgol Zhejiang, lle hyfryd tuag awr i'r de-orllewin o Shanghai. Mae Shanghai yn enwog am ei phrydferthwch naturiol, ac yma y mae'r Llyn Gorllewinol adnabyddus y mae'r bobl Tsieinaidd yn cyfeirio ato fel 'nefoedd ar y ddaear'. Treuliwyd ein diwrnod cyntaf yn Tsieina ar gwch yn cael golwg ar y Llyn Gorllewinol. Mae nifer o ynysoedd yn y llyn gyda phagodâu hardd yng nghanol pob un. Dilynwyd hyn gan sioe dŵr a goleuni gyda cherddoriaeth a oedd mor fesmereiddiol nes denu tyrfa fawr!

Un o amcanion y daith oedd dysgu Mandarin ac yn ein gwrs gyntaf dysgodd ein hathro ni i ynganu ac ysgrifennu ein henwau mewn Tsieiniëeg. Roedd yr iaith yn bur anodd ar y cychwyn gan ei bod yn iaith donyddol, sy'n golygu os byddech yn ynganu gair gyda'r dôn anghywir y byddech ar ddamwain yn dweud, er enghraifft, 'ceffyl' yn lle 'mam'! Fodd bynnag, fe wellodd ein sgiliau ieithyddol ac ynganu pan sylweddolwyd nad oedd yr un o'r gyrwyr tacci na'r perchnogion siopau yn siarad gair o Saesneg, ac arweiniodd hynny at rai sgyrsiau pur ddoniol!

Ar ein penwythnos gyntaf penderfynodd criw ohonom fynd draw i Shanghai. Mae'r ddinas yn gwbl wahanol i unrhyw le roeddwn i wedi ei weld o'r blaen. Cafodd ei chodi mewn 10 mlynedd ac mae hynny wedi creu awyrgylch ryfeddol, sy'n ferw o brysurdeb, er gwaethaf yr haenau o fwllwch y gellid ei weld uwchben y ddinas! Aethom i fyny Canolfan Ariannol y Byd Shanghai, yr arsyllfa uchaf yn y byd, i edrych ar olygfeydd anhygoel dros y Bund!



Ar ôl dychwelyd aethom ar daith i Fynydd Mogan lle bu'r Cadeirydd Mao yn byw ar un adeg. Cefais gryn syndod o weld bod y tŷ yn un pur blaen a diaddurn o gofio am ei gyfoeth a'i rym dirfawr. Yna aethom am bryd Tsieinaidd cwbl draddodiadol o draed cyw iâr, pelenni llygaid pysgod a thafodau hwyaid! Gofynnais am gawl cyw iâr a chefais lond powlen o ddŵr poeth gyda phen iâr yn arnofio ynddo....gallwch fentro nad oedd gen i fawr o chwant bwyd wedyn!

Yn ôl yn Hangzhou aethom i ymweld â theuluoedd lleol er mwyn bod yn rhan o'u bywyd beunyddiol, a fe'n dysgwyd sut i wneud twmplenni. Roedd y teuluoedd hefyd yn rhoi prawf ar ein gwybodaeth o Fandarin, rhywbeth hynod o ddefnyddiol gan i hynny sicrhau fy llwyddiant yn yr arholiad HSK Lefel 1, prawf o hyfedredd mewn Tsieiniëeg. Cawsom hefyd ddysgu 'kung-fu' a 'tai-chi', rhywbeth a fwyneais yn fawr, a chafwyd cyfle hefyd i roi cynnig ar gelfyddyd Tsieinaidd draddodiadol megis caligraffi a pheintio masgiau. Tua diwedd ein cyfnod yno, aethom ar ymweliad â phlanhigfa te a rhoi cynnig ar dynnu'r dail tra'n gwisgo hetiau traddodiadol. Aeth fy nhair wythnos yn Tsieina heibio fel y gwynt â prysurdeb dysgu Mandarin, mwynhau'r golygfeydd syfrdanol o'r mynyddoedd a thrwytho fy hun yn niwylliant a dulliau coginio Tsieina, ond dyna sut roeddwn i am i bethau fod. Byddwn wrth fy modd yn cael cyfle i ddychwelyd i Tsieina gan ei fod yn brofiad rhyfeddol a byddwn yn eich argymhell i gynnig am y rhaglen - wnewch chi ddim difaru!

WORLDWIDE



Tud 21: MSc newydd...



Tud 22: Codi llwch yng Ngwlad yr Iâ...



Tud 24: Profiad 'Operation Iceberg'



Cynnwys

Tudalen flaen - "Ni hao" - Emily Strub

Profiadau Is-raddedigion

- Tud. 3 - Cofion Caredig o'r Almaen - Laura Gerrish
- Tud. 4 - Vive la France - Lizzie Wignall
- Tud. 5 - Tu ôl i'r llenni yn ADGD - Rhodri Bevan
- Tud. 6 - Gwaith Tywydd - Jessica Wood
- Tud. 7 - Anturiaethau Amasonaidd - Sophie Tumber

Traethodau

- Tud. 8 - Nosau Kalahari - Helen Morgan
- Tud. 9 - Ystyried Cadwraeth - Leigh-Anne Bullough
- Tud. 10 a 11 - Gwobrau WJ Edwards - Leanne King, John Dixon, Penny Clarke, Gareth Williams

Gwobrau a Chymdeithasau

- Tud. 12 a 13 - Cystadleuaeth Ffotograffig 2013
- Tud. 14 - Geog Soc
- Tud. 15 a 16 - Gwobrau Teithio

Newyddion Ôl-raddedig

- Tud. 17 a 18 - Graduate Biogs
- Tud. 19 - Sam yn Svalbard: safbwynt amgen - Sam Saville
- Tud. 20 - Ysbeidiau Heulog - Steffan Griffiths
- Tud. 21 - MSc NEWYDD I 2014! - "Climate Change, Impact and Adaptation"

Ymchwil Staff

- Tud. 22 - Codi Llŵch yng Ngwlad yr Iâ - Carina Fearnley
- Tud. 23 - Ar Lannau'r Gamwy - Hywel Griffiths a Stephen Tooth
- Tud. 24 a 25 - Profiad 'Operation Iceberg' - Cyfweiliad gydag Alun Hubbard

Newyddion Adrannol

- Tud. 26 a 27 - Newyddion Adrannol

Golygwyd gan Cerys Jones a Philippa Bevan

Y newyddion a fu'n hawlio penawdau'r misoedd diweddar oedd y difrod a achoswyd gan y Teiffŵn Haiyan yn y Philipinau. Yn lleol, tarwyd Aberystwyth gan gyfres o stormydd, gan adael eu hôl ar y promenâd. Gwelodd pob un ohonom nerth natur i ddistrywio aneddiadau a bywydau. Yn eangach, mae'r digwyddiadau yn arddangos arwyddocâd Daearyddiaeth fel disgyblaeth i'n helpu i ddeall y prif heriau sy'n wynebu'r byd, boed mewn perthynas â'r prosesau ffisegol sy'n weithredol yn y cefnforoedd a'r atmosffer neu brosesau dynol, sy'n golygu bod rhai gwledydd yn fwy agored i drychinebau 'naturiol' na'i gilydd. Yn bwysig iawn, gall Daearyddiaeth a daearyddwyr ddarparu ffyrdd i ddatrys rhai o'r problemau hyn drwy ddod o hyd i well ffyrdd o ragweld y dyfodol.

Mae ein hymchwil yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn parhau i geisio deall rhai o'r heriau allweddol hyn sy'n wynebu'r ddynoliaeth a'r byd naturiol. Mae amryw o brosiectau ymchwil newydd yn dechrau yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ymchwiliadau a fydd yn archwilio, ymhlith pethau eraill, ddealltwriaeth pobl o ddiwyddiadau tywydd eithafol (Dr Sarah Davies a Dr Cerys Jones), effaith globaleiddio ar gymunedau ledled y byd (yr Athro Mike Woods), yn ogystal â gwahanol fecanweithiau y gellir eu defnyddio i newid ymddygiad pobl, a hynny yn anad dim mewn perthynas â difrod i'r amgylchedd (yr Athrawon Mark Whitehead a Rhys Jones).

Rhan o arwyddocâd yr ymchwil hwn, wrth gwrs, yw ei fod yn helpu i hysbysu ac i wella ansawdd yr amgylcheddau dysgu rydyn ni'n ei greu yn yr Adran. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf, megis *Climate Change, Atmosphere and the Water Cycle, Global Environmental Issues a Power, Place and Development*, yn ceisio deall rhai o'r themâu allweddol a adlewyrchir yn Nheiffŵn Heiyan. Mae'r modiwlau blwyddyn gyntaf hyn yn cael eu hategu gan fodiwlau pellach yn yr ail a'r drydedd flwyddyn sy'n canolbwyntio'n fanylach ar faterion megis *Sustainability and Resilience, Geohazards a Governing Uncertain Futures*. Ym mhob un o'r modiwlau hyn bydd ein staff yn darparu dadansoddiadau arbenigol o'r sialensiau sy'n wynebu'r byd, yn ogystal ag yn archwilio ffyrdd ymarferol posib o ddatrys y sialensiau hyn.

Rydyn ni'n hynod o gyffrous eleni, yn arbennig, ynglŷn â chyflwyno dau gynllun Meistr newydd a fydd yn rhedeg o fis Medi 2014 ymlaen. Y cyntaf yw MSc ar *Environmental Change, Impact and Adaptation*, tra bydd yr ail yn archwilio *River System Dynamics and Management*. Dengys y ddau gynllun MSc newydd hyn, yn ogystal â'n cynlluniau israddedig a'n cynlluniau Meistr eraill, ein hymrwymiad parhaus i arfogi ein graddedigion gydag ystod o wybodaeth academaidd a sgiliau ymarferol y gallant eu defnyddio i roi sylw i'r sialensiau sylfaenol sy'n wynebu dynoliaeth.

Yr Athro Rhys Jones, Pennaeth Adran

Profiadau Israddedigion

Mae'r Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd ffantastig i fyfyrwyr archwilio ein Byd drwy astudio dramor, treulio blwyddyn mewn cyflogaeth, ennill profiad o weithio dros yr haf, cynnal ymchwil gyffrous, neu fynd ar antur!

Cofion caredig o'r Almaen

Laura Gerrish, Myfyrraig Israddedig

Gan fy mod yn astudio daearyddiaeth ffisegol ac Almaeneg roedd gofyn i mi dreulio blwyddyn dramor y llynedd fel rhan o'm cwrs gradd. Er fy mod yn edrych ymlaen at hynny, roeddwn ar yr un pryd yn hynod o nerfus ac ofnus. Fodd bynnag, ar ôl diwrnod neu ddau yng nghwmni pobl groesawus, gyfeillgar prin y gallwn aros i wneud yn fawr o'r flwyddyn.

Euthum yno ar raglen y Cyngor Prydeinig a threuliais y flwyddyn yn dysgu Saesneg mewn ysgol yn Karlsruhe, Baden-Württemberg. Roedd gweld brwdfrydedd a pharodrwydd y plant i ddysgu Saesneg yn hynod o foddhaus a theimlwn fy mod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r dosbarthiadau roeddwn yn eu helpu. Roedd y gwaith yn dra defnyddiol ac rwy'n gwybod y bydd y profiad bywyd a gwaith a gefais yno o gryn gymorth i mi yn y dyfodol.

Un o'r agweddau gorau o fy mlwyddyn dramor oedd gallu teithio i gymaint o fannau newydd yn Ewrop. Bûm yn y Weriniaeth Tsiec, Awstria a Liechtenstein ymhlith gwledydd eraill, a chefais weld llawer ardal yn yr Almaen nad oeddwn wedi eu gweld o'r blaen. Roedd gweld y gwahanol dirweddau a diwylliannau yn y gwledydd hyn yn ddiddorol dros ben ac roedd rhai o'r manau y bûm ynddynt, megis Alpau'r Swistir, wedi fy llwyr gyfareddu. Rwyf bob amser wedi bod yn ymwybodol yr hoffwn deithio cymaint ag y gallwn ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cadarnhau hynny. Roedd yn gyfle ffantastig ac roeddwn yn falch fy mod wedi gallu cymryd rhan ac yna ailgydio yn fy astudiaethau daearyddol pan ddychwelais i Aberystwyth.

Byddwn yn argymell y rhaglen i eraill a phe cawn y cyfle fe fyddwn yn fwy na hapus i ddychwelyd ac ailadrodd y cyfan, hyd yn oed y munudau o deimlo'n llwyr ar goll mewn gwlad estron a'r dyddiau pan oeddwn fel pe bawn wedi colli pob gair o'm Halmaeneg!





Vive la France!

Lizzie Wignall,
Myfyrwraig Israddedig



Mae astudio ar gyfer gradd Anrhydedd Gyfun mewn Daeryddiaeth Ffisegol a Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi arwain at lawer o gyfleoedd i ddarganfod diwylliannau newydd, i wneud ffrindiau newydd ac i ddysgu sgiliau newydd dramor.



Yr haf diwethaf, bûm yn gweithio fel Tywysydd Plant Eurocamp a Keycamp ar Camping La Pergola, Jura, Ffrainc. Roeddwn i a merch arall yn rhedeg sesiynau chwaraeon a chelf, helfeydd trysor a discos ar gyfer plant rhwng 4 a 12 oed.

Yn ddiweddarach yr haf hwnnw, fel rhan o'm Blwyddyn Dramor orfodol, dechreuais weithio fel cynorthwy-ydd Saesneg mewn tair ysgol gynradd yn La Voulte-sur-Rhone, Ardeche, Ffrainc. Penderfynais i a thua deg o gynorthwywyr iaith eraill fyw yn Valence, prifddinas y Drome a chymudo i'r gwaith. Buom yn ymweld â ffatri siocled Val du Rhona lle gellid blasu pasta rafioli siocled, sglefrio ia ac ymweld â gŵyl sain a goleuni Valence a chastell Crussol. Rhai o uchafbwyntiau eraill y flwyddyn oedd mynd i farchnad Nadolig Grenoble, Palas y Pab a phont enwog Avignon a chwrdd â chyfeillion o'r brifysgol yng ngŵyl goleuni Lyon.

O ganlyniad i'r hyder, yr annibyniaeth a'r sgiliau datrys problemau a enillais wrth fyw dramor, cymerais waith fel 'au-pair' yn Salvarosa, ger Fenis, yr Eidal am fis yn ystod yr haf eleni. Roedd y teulu a'r ddau blentyn, naw a saith oed, yn hyfryd ac yn byw y drws nesaf i fferm eu taid a'u nain. Aethom ar daith gyda'n gilydd i Fenis, godre Alpau'r Eidal a'r arfordir.

Rydw i wedi cael amser rhyfeddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwy'n awyddus iawn i ddefnyddio fy sgiliau newydd yn ystod fy ngradd.

Tu ôl i'r llenni yn ADGD

Rhodri Bevan,
Myfyriwr Israddedig



Hywel Griffiths, Simon Foulds a Rhodri Bevan yn nalgylch Nant Cwm Du.

Ar ôl y rhyddhad o gwblhau fy arholiadau blwyddyn gyntaf ym mis Mai, sylweddolais yn fuan bod fy adolygu trylwyr wedi peri i mi esgeuluso cynllunio fy ngwyliau haf. Roedd fy mhrofiadau o'r flwyddyn gyntaf wedi ysgogi fy niddordeb mewn agweddau ffisegol o ddaearyddiaeth, felly roeddwn yn awyddus i ddod o hyd i gyfle i ehangu fy mhrofiad o waith ymchwil a datblygu sgiliau ymarferol drwy wneud gwaith maes. Awgrymodd fy nhwitor y dylwn gysylltu â Dr Hywel Griffiths o'r Grŵp Ymchwil Hydroleg a Deinameg Basnau Afon, i holi os oedd unrhyw gyfleoedd ar gael yn yr adran ac, yn ffodus, atebodd bod croeso i fi gynorthwyo gydag ambell i brosiect dros yr haf.

Ar fy niwrnod cyntaf cefais fy synnu i ddarganfod bod gennyf fy nesg a chyfrifiadur fy hun yn yr adran mewn ystafell o fyfyrwyr ôl-raddedig prysur. Fy nhasg gyntaf oedd defnyddio meddalwedd 'Arcmap' i fapio sianeli afonydd yn ardal Llyn Tegid a Chwm Ystwyth. Er iddo gymryd cryn amser i fi ymgysylltu â'r meddalwedd newydd, roedd yn gyfle gwerthfawr i ddatblygu sgiliau technoleg gwybodaeth berthnasol i fy mhwnc, ac i ail-gyfarwyddo gyda thirffurfiau afonol.

Yna bûm yn cynorthwyo Dr George Petropoulos gyda'i waith o ddatblygu model cyfrifiadurol i fodlu gwahanol agweddau o'r hinsawdd (SimSphere). Fy nghyfrifoldeb i oedd defnyddio Microsoft Excel er mwyn asesu a threfnu'r ystadegau priodol. I redeg y model, bu'n rhaid i ni feddiannu ystafell gyfrifiaduron B23 am noswaith gyfan er mwyn defnyddio pŵer cyfrifo bron i gant o gyfrifiaduron.

Uchafbwynt fy nghyfnod o brofiad gwaith oedd y cyfle i gymryd rhan mewn gwaith maes ar gyfer amryw o brosiectau. Roedd yn gyfle i ymgymryd â gwaith ymarferol mewn rhai o ardaloedd prydferthaf Cymru.

Bûm yn cynorthwyo Dr Hywel Griffiths a Dr Simon Foulds gyda'u gwaith ymchwil yng Nghwm Ystwyth. Yno buom yn defnyddio GPS i fapio llethr sianeli nentydd a mesur ffurfiau afonol megis boulder berms er mwyn asesu lefel ac amllder llifogydd y gorffennol. Cefais fy nghyflwyno i'r dechneg o ddyddio cenfesureg, sef mesur maint a nifer cennau ar gerrig a'u dyddio trwy eu cymharu â chennau ar gerrig beddi cyfagos.

Cefais hefyd gyfle i gynorthwyo ar waith maes Jo Matthews, myfyrwraig ôl-raddedig, fel rhan o'i hymchwil ar waddodion mewn cronfeydd dŵr yfed ym Mannau Brycheiniog. Dysgais sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau ymchwil ar gyfer asesu gwaddodion mewn afonydd, yn ogystal â sut i amddiffyn offer drudfawr gyda dim mwy na thâp selo, bagiau bwyd a Tupperware!

Credaf bod fy nghyfnod o brofiad gwaith gyda'r Grŵp Ymchwil Hydroleg a Deinameg Basnau Afon wedi bod yn fuddiol iawn ac wedi darparu cyflwyniad defnyddiol a phleserus i fyfyrwyr ymchwil.



Gwaith Tywydd

**Jessica Wood,
Myfyrwraig Israddedig**

Yn ystod yr haf bŵm yn rhan o gynllun lleoliad yr haf yn y Swyddfa Dywydd yng Nghaerwysg. Yn gyfangwbl roedd tua 40 o fyfyrwyr ar y lleoliad haf ac roeddynt yn amrywio o fyfyrwyr lefel A i rai oedd newydd raddio, pob un gyda diddordebau a oedd yn amrywio o fusnes a marchnata i fathemateg a meteoroleg. Tra yno, roeddwn yn gweithio gyda'r tîm Cyfryngau Digidol a Byd-eang yn creu ac ysgrifennu cynnwys gwefan i gynorthwyo defnyddwyr i ddysgu rhagor am y tywydd, ac am bynciau amserol megis gwres uchel a lleithder. Fel myfyriwr lleoliad haf, roeddwn yn cael fy nhrin fel unrhyw aelod arall o'r staff ac yn cael fy mwrw i mewn i fywyd gwaith o 9 hyd 5, yn mynychu cyfarfodydd ac yn gorfod cwblhau gwaith erbyn amseroedd penodol.

Yn ogystal â gweithio fel aelod o'r tîm Cyfryngau Digidol a Byd-eang, cefais gyfle i dreulio amser yn y stiwdio i ddysgu sut roedd y broses sgrîn werdd yn gweithio. Rhoddwyd cyfle i mi i gysgodi daroganwr tywydd ac i ddeall y broses o sut y maent yn dehongli data tywydd crai i'r modd y mae yn y diwedd yn cyrraedd y cyfryngau yn rhan o'r rhagolygon tywydd dyddiol a welwn ni ar y teledu.

Hefyd, yn ystod fy lleoliad, bŵm yn gweithio yn y swyddfa gyda myfyrwyr lleoliad haf eraill i hyrwyddo 'app' tywydd y Swyddfa Dywydd o fewn y sefydliad ac fel rhan o hyn fe greuon ni ein fideo hyrwyddo ein hunain. I gwblhau fy lleoliad haf, cynhyrchais adroddiad helaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif 'apps' tywydd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo datblygiad 'app' tywydd y Swyddfa Dywydd ei hun yn y dyfodol. Fel cyfanwaith, roedd yn gyfnod pleserus ac yn brofiad dysgu diddorol o fewn i sefydliad mor fawr a phwysig. Ar y cyfan, byddwn yn cymeradwyo lleoliad haf yn y Swyddfa Dywydd i unrhyw un.





Anturiaethau Amasonaidd Sophie Tumber, Myfyrwraig Israddedig

Yn ystod yr haf cefais wahoddiad i fynd allan i Brasil ar gyfer interniaeth 7 wythnos gyda'r cwmni Bunge, gyda'r ffocws ar gynladwyedd a rheolaeth amgylcheddol ac a fyddai wedyn yn sail i fy mhrosiect yn fy mlwyddyn derfynol.

Cyrhaeddais faes awyr rhyngwladol São Paulo a mynd yn syth ar awyren arall i Balneario Camboriu lle byddwn yn cael fy lleoli. Ymweliad byr oedd hwn gan i mi hedfan y diwrnod canlynol i Rio Grande yn ne Brasil i gymryd rhan mewn cynhadledd. Roedd y gynhadledd yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau o beirianeg i gynladwyedd.

O Rio Grande teithiais yn ôl i São Paulo i dreulio diwrnod neu ddau yn swyddfa ganolog y cwmni. Cefais gymryd rhan yng nghyfarfodydd y grŵp gwaith amgylcheddol lle buwyd yn trafod targedau'r cwmni yn 2013.

Yn olaf, ar ôl 2 wythnos brysur, roeddwn yn ôl yn y ganolfan am dros 12 awr! Treuliais yr wythnos hon yn y swyddfa gweithrediadau a oedd yn canolbwyntio ar ddod i wybod beth sy'n digwydd yn yr adran PQSE (cynhyrchiant, ansawdd, diogelwch a'r amgylchedd) yn ogystal ag ymwneud â phrosiect natur y cwmni.

Yr wythnos ganlynol roeddwn wedi fy lleoli yn Nova Mutum yng ngorllewin Brasil. Roedd mynd yno yn golygu dwy daith awyren a gyrru am 5 awr – mae Brasil yn wlad fawr! Y rheswm pennaf dros fod yn Nova Mutum oedd cynnal asesiad amgylcheddol o'r gwaith ac edrych ar y ffordd roeddynt yn trin eu dŵr gwastraff. Un noswaith cefais aligator a sglodion i ginio!

Yn ôl yn y ganolfan treuliais amser gyda phobl sy'n gweithio ar brosiect natur y cwmni; dyma o bosibl oedd fy hoff ran o'r interniaeth. Aed â fi i warchodfa natur Figura Branca a bùm yn cerdded ar hyd amryw o lwybrau, lle'r eir â gweithwyr a phlant ysgol i ddysgu mwy am yr amgylchedd.

Yna roedd yn rhaid i mi baratoi ar gyfer fy nhaith i'r prosiect yng Nghoedwig Law yr Amason lle byddwn yn cyflawni asesiad amgylcheddol arall. Roedd cyrraedd Belem yn cymryd diwrnod cyfan ac er mwyn cyrraedd y prosiect o'r ddinas roedd rhaid mynd ar fferi ceir dros afon Para. Aed â fi ar daith drwy'r prosiect a oedd yn wirioneddol ddiddorol gan ei fod yn dal i gael ei lunio ac roeddwn yn gallu gweld beth roeddynt yn ei wneud er mwyn cynnal gwerthoedd diwyllianol ac amgylcheddol, sy'n arbennig o bwysig yma gan fod y prosiect yng nghanol Coedwig Law yr Amason.

Bu'r profiad hwn yn un gwirioneddol fuddiol; roeddwn yn gallu gweithio mewn gwlad wahanol tra'n dysgu mwy am ei diwylliant ac yn ennill profiad a gwybodaeth ar gyfer cwblhau fy mhrosiect prifysgol.

Traethodau Estynedig

Bob blwyddyn mae gofyn i'n myfyrwyr sydd ar eu trydedd flwyddyn gynhyrchu traethawd estynedig ar astudiaeth annibynnol gyda chymorth aelod o'r staff sy'n arbenigo yn eu maes ymchwil. Yma mae rhai o'n myfyrwyr sydd ar eu blwyddyn olaf yn sôn am eu hanturiaethau ar waith maes.

Nosau Kalahari

Helen Morgan

Tua diwedd yr haf eleni bŵm yn ddigon ffodus i gael y profiad o fod yn gynorthwydd ymchwil ar brosiect yn Anialwch Kalahari yn Botswana. Roedd yr ymchwil yn rhan o brosiect eangach o dan arweiniad Dr Andrew Thomas o Aberystwyth ac academyddion o Brifysgol Leeds a Phrifysgol Universidad Rey Juan Carlos yn Sbaen. Roeddwn i wedi ymweld â De Affrica o'r blaen gyda'r coleg ac roeddwn i bob amser eisiau dychwelyd er mwyn darganfod a deall yr amrywiaeth o dirweddau sydd gan Affrica i'w cynnig. Pwrpas fy ymchwil, ar gyfer fy nhraethawd, oedd mesur faint o CO₂ a gynhyrchid gan bridd yr anialwch a gweld faint o hwn oedd yn cael ei ddal gan y gramen bridd fiolegol rhag dianc i'r atmosffer. Mae tywod yr anialwch yn unigryw gan ei fod wedi ei orchuddio â chramen denau o facteria a ffyngau. Mae'n wybyddus bod y gramen hon yn sefydlogi'r twyni ac yn rhwystro erydiad y gwynt, ond maent hefyd yn effeithio'r gylchred garbon. Gan mai pridd yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o CO₂ i'r atmosffer mae'n bwysig deall faint sy'n cael ei gadw a faint sy'n cael yn ei ollwng a sut y mae yn debyg o gael ei effeithio gan wahanol ddefnydd o dir a newidiadau hinsawdd.

Gwnaethpwyd mwyafrif yr ymchwil ar Fferm Berrybush ger Tsabong, lle mae Jill Thomas wedi gwsteia a hyrwyddo'r ymchwil ers

dros ddeng mlynedd. Roedden ni hefyd yn gweithio mewn mannau anghysbell ymhell oddi wrth unrhyw bentrefi yng Ngorllewin y Kalahari. Ar gyfer fy ymchwil roeddwn i wedi darparu cyfres o siambrau er mwyn casglu'r nwy oedd yn cael ei allyrru o'r tywod ar wahanol ddyfnder. Yna roedden ni'n defnyddio dadansoddydd nwy is-goch i benderfynu faint o CO₂ oedd yn y nwy. Drwy gymharu'r canlyniadau hyn o'r gwahanol ddyfnderau roedden ni'n gallu penderfynu bod y gramen fiolegol yn 'dal' rhwng 40% a 50% o'r CO₂ oedd yn dod o'r tywod rhag iddo gael ei allyrru i'r atmosffer. Roedd y swm a gâi ei gadw yn uwch mewn mannau nad oeddynt wedi cael eu pori o'i gymharu â mannau oedd wedi cael eu pori yn drwm, ac roedd hynny'n dangos y pwysigrwydd o edrych ar ôl cramen fiolegol yr anialwch os ydyn ni am leihau allyriad CO₂ o'r pridd.

Roedd gweithio allan yn Botswana yn wahanol iawn i weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth yn Seland Newydd yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd nifer o wahanol sialensau nad oedd gen i unrhyw brofiad blaenorol ohonynt i'w hwynebu; pethau fel defnyddio cyfarpar newydd, gweithio gyda grŵp agos o academyddion arbenigol a rhwystrau iaith a diwylliant newydd.

Cyn teithio i Botswana a thrwy gydol y daith ymchwil, mae Dr Andrew Thomas wedi fy helpu i gynllunio ac i baratoi ar gyfer y daith, drwy ddatblygu fy nealltwriaeth academiaidd o'r ymchwil oedd i'w wneud a datblygu amryfal sgiliau gwyddonol pan oedden ni wrth y gwaith. Yn ystod yr ymchwil hwn rydw i wedi gallu datblygu dulliau gwyddonol, dysgu amryfal eiriau a chyfarchion Setswanan, ynghyd â deall gwahanol faterion y mae academyddion yn gorfod eu hwynebu yn y maes. Drwy gydol fy amser yn Botswana pan nad oeddwn yn casglu data a samplau o bridd, roeddwn yn profi bywyd gwirioneddol Botswana drwy deithio i warchodfa natur a gwersylla yn y gwylltir lle cafwyd rhai profiadau anghysurus o agos, yn cynnwys rhai gyda llew a sgorpionnau anghueuol. Mae'r profiadau hyn wedi ffocysu fy meddwl a nawr maent yn fy ngyrru i ddilyn gyrfa academiaidd yn ogystal â fy arwain i werthfawrogi bywyd gwyllt mewn modd cwbl newydd.



Ystyried Cadwraeth

Leigh-Anne Bullough

Y llynedd, enillais un o wobrau teithio'r adran o £400, a helpodd i dalu'r gost o deithio i Dde Affrica am 16 diwrnod – galluogodd hynny i mi gael profiad mwyaf pleruser a gwerthfawr fy mywyd.

Fel myfyriwr daearyddiaeth, rydw i bob amser yn awyddus i deithio i fannau newydd ac i ddarganfod diwylliannau eraill. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i deithio ychydig o'r blaen – ond mae De Affrica yn rhywle sydd bob amser wedi apelio ataf. Arweiniodd fy niddordeb mewn cadwraeth, ynghyd ag awydd i gael profiad o 'wylltiroedd' Affrica, fi i fynd i weithio'n wirfoddol yng Ngwarchodfa Natur Breifat Kwa Madwala. Tra roeddwn yn y warchodfa roeddwn yn gallu cael dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r gwarchodfeydd yn cael eu rhedeg ac o fywyd beunyddiol y bobl sy'n hebrwng y twristiaid ar deithiau saffari ac yn sicrhau bod y warchodfa yn rhedeg yn esmwyth fel cyrchfan saffari ffotograffig.

Dewisais dreulio fy amser yn Affrica mewn gwarchodfa ffotograffig, lle byddai'r cerbydau ar saffari yn mynd mor agos â phosibl at yr anifeiliaid, ond gan ofalu peidio â tharfu arnynt. Llwyddais i ddod yn bur agos at Rinoseros, Eliffant, Impala, Galago, Hipopotamws, Crocodeil a llawer o anifeiliaid eraill ar yr un tir â minnau. Gallais hyd yn oed gyfarfod a chyfarch eliffant preswyl y warchodfa a oedd yn byw mewn gweryll a ddefnyddid i addysgu pobl am gyflwr yr eliffant Affricanaidd. Aeth y grŵp, a minnau i'w canlyn, ar saffaris yn y nos er mwyn gallu syllu ar sêr Hemisffer y De.

Rhan bwysig arall o'n gwaith oedd mynd ar deithiau cerdded gwrth-botsio drwy'r gwylltir, a llwyddwyd i dynnu 20 o faglau oedd wedi cael eu gosod i ddal antelopiaid ac anifeiliaid eraill ar gyfer y fasnach gig anghyfreithlon o'r gwylltir. Mae Gwarchodfa Anifeiliaid Mawr Kwa Madwala yn ymdrechu i gadw cymaint o famaliaid mawr ag sy'n bosibl o fewn i warchodfa gyda ffens o'i hamgylch. Roedd yr anifeiliaid hyn wedi eu ffensio i mewn, ond roedd maint y warchodfa yn golygu eu bod yn gallu byw mor agos i fod yn hollol wyllt â phosibl, tra'n dal i gael eu diogelu. Gallais hefyd ymweld â Pharc Cenedlaethol byd-enwog Kruger – parc cenedlaethol anferth heb ffens sy'n rhychwantu tair gwlad. Yma, o'r diwedd, llwyddais i gael cip ar haid o lewod a gyr o tua 30 o eliffantod. Roedd hyn yn un o uchafbwyntiau'r daith ac yn eiliad fythgofiadwy. Cawsom hefyd ddigonedd o amser i ymlacio o gwmpas y pwll nofio.

Yr hyn a'm synnodd i fwyaf, fodd bynnag, oedd gweld bod o fewn milltir i'r warchodfa lle roeddwn i'n gwirfoddoli, warchodfa hela 'tlysau' – ardal eang wedi ei ffensio a oedd yn llawn o anifeiliaid y gellid yn gyfreithlon eu saethu am arian. Y mwyaf ei faint a'r mwyaf prin oedd yr anifail, y mwyaf oedd y tâl am ei saethu. Gan fy mod yn Affrica roeddwn yn gallu ceisio deall yr arfer hwn drwy sgwrsio gyda'r gweithwyr a oedd yn gweithio i amddiffyn yr anifeiliaid yn y warchodfa ffotograffig. Bùm yn sgwrsio'n hir gydag amryw o'r gweithwyr er mwyn cael eu barn am yr hela am arian ac i ddeall sut yr oedd yn cael ei redeg.

Fem cyfareddwyd gan y pwnc a oedd yn ymestyn yn ôl i oes drefedigaethol goruchafiaeth y bobl wyn a chyfnod y fforio yn Affrica. Roeddwn i â'm bryd ar ddarganfod sut roedd hyn yn perthyn i'r oes fodern ac yn fuan daeth yn bwnc fy nhraethawd. Yn fy ymchwil, rydw i wedi ymdrechu i ddarganfod sut mae dynion wedi defnyddio anifeiliaid an-ddynol fel nwyddau drwy gydol hanes, gyda ffocws arbennig ar hela 'tlysau' yn Affrica. Mae dynion yn defnyddio anifeiliaid ar gyfer ymchwil meddygol, cwmniaeth a thargedau hela – mae ein cymdeithas gyfalafol yn defnyddio anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid yn feunyddiol, ac mae fy ymchwil yn gofyn y cwestiwn – a yw'r deunydd hwn yn andwyol i'r anifeiliaid an-ddynol sy'n rhannu'r blaned gyda ni yn y tymor hir? Rwyf hefyd yn amcanu i asesu dilysrwydd hela 'tlysau' fel 'erfyn cadwraeth' fel y mae amryw o gefnogwyr hela yn ei hawlio. Bwriadaf goladu amryw ffynonellau gwybodaeth er mwyn ystyried a yw defnyddio anifeiliaid an-ddynol i'n dibenion ein hunain yn foesebol ac economaidd ymarferol – gan ganolbwyntio ar y deunydd o fywyd gwyllt Affrica a chysylltiad hynny â chadwraeth.

Cynorthwyodd gwobr teithio'r adran fi i ddarganfod pwnc yr wyf yn teimlo'n frwd yn ei gylch, ac y gobeithiaf fynd ymlaen i wneud astudiaeth ôl-raddedig arno, yn ogystal â'm helpu i ymweld â gwlad roeddwn yn chwilfrydig yn ei chylch ac yn dyheu am ymweld â hi.

Gwobr W J Edwards

Roedd gan Bill Edwards (1944-2007) ddi-ddordeb angerddol yng Nghymru – yn enwedig mewn cymuned, gwleidyddiaeth a chyfranogiad. Roedd yn ymddiddori'n fawr hefyd yn y cysylltiadau rhwng Daeryddiaeth a disgyblaethau eraill megis Celf, Hanes a Llenyddiaeth, yn ogystal â'r gwyddorau cymdeithasol a chorfforol. Fel Cyfarwyddwr Dysgu ADGD a Deon y Celfyddydau, fe wnaeth gyfraniad mawr i wella profiad y myfyrwyr yn Aberystwyth.

Arsenig yn y Mynydd?

Leanne King, Gwyddor Daear Amgylcheddol

Mae Mynydd Parys, y mwynglawdd copr o'r Oes Efydd wedi ennyn fy niddordeb erioed. Drwy gyfrwng traethawd fy mhrosiect roeddwn yn gallu cyfuno'r lleoliad hwn gyda fy mrwdfrydedd am gemeg dŵr. Mae'r mwynglawdd copr a gaeodd ar ddechrau'r 20fed ganrif, wedi bod yn halogi'r afonydd lleol (Afon Goch y Gogledd a'r De) gyda dŵr asidig o'r mwynglawdd – dyma un o'r mwyngloddiau mwyaf llygredig yn y DG ac felly mae'n cael effaith hynod o niweidiol ar yr amgylchedd o'i gwmpas.

Treuliais ddau ddiwrnod yn mesur asidedd y dŵr wyneb o gwmpas Mynydd Parys, tra'n casglu dros 45 sampl o ddŵr gyda chymorth cynorthwywr brwdfrydig – fy nhad! Treuliyd ein hamser yn hidlo'r samplau dŵr ar y safle tra'n mesur pH, Eh, tymheredd ac ORP

Fy nhad yn helpu i gasglu samplau ar Fynydd Parys

pob un o'r pymtheg lleoliad a astudiwyd.

Yna dadansoddais y samplau yn labordy'r brifysgol gan ddefnyddio offer megis yr 'Ion Chromatographer', ICP-MS, HPLC a AAS yn ogystal â'r dechneg cyfnewid cationau. Cefais ystod o ganlyniadau rhyfeddol, er eu bod yn achosi pryder. Yn ôl y disgwyl roedd y crynodiad o haearn a phlwm yn weddol uchel, fodd bynnag, roedd y crynodiad o arsenig yn y pyllau ar yr wyneb yn annisgwyl o uchel. Arweiniodd hyn fi i ymchwilio ymhellach er mwyn canfod y math o arsenig a oedd ar gael yn y dyfroedd mwyaf gwenwynig. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio cyfuniad HPLC-ICP-MS. Yn ffodus, mae'r arsenig sydd yno ar ei ffurf leiaf gwenwynig (AsV), er ei fod yn dal i fod yn halogydd niweidiol posib, sy'n awgrymu y dylid cywiro'r sefyllfa ac mai gorau po gyntaf y gwneir hynny.

Mewn rhai o'r pyllau ar y mynydd ei hun, mae AsIII yn dal i fod yn bresennol, er bod y crynodiadau yn llawer is na'r rhai AsV. Mae hyn yn awgrymu bod potensial ocsideiddiad y pyllau hyn yn llawer is nag ar leoliadau pellach oddi wrth y mynydd, ac felly eu bod yn llai tebygol o gynnwys unrhyw fath o fywyd o ganlyniad i'r lefel uchel o halogyddion.

Yn ystod y ganrif ddiwethaf mae prinder dŵr wedi dod yn broblem gyffredin, ac felly mae ymchwil, megis yr un rydw i wedi ei chyflawni, yn hanfodol er mwyn penderfynu ar y cemegau priodol i gael gwared ar halogyddion amrywiol o ddŵr wyneb a dynodi ardaloedd a allai o bosibl fod yn adnoddau dŵr mewn blynyddoedd i ddod, megis Afonydd Coch y Gogledd a'r De. Fodd bynnag, rhaid i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o faint y llygriad o ganlyniad i ddraeniad asid mwyngloddiau, cyn y gellir dod o hyd i ffordd o adfer y sefyllfa.

Gan fy mod yn byw ym Manceinion, darparwyd y costau teithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad yn Sir Fôn, Gogledd Cymru, gan Wobr WJ Edwards. Mae'r wobr

hwn wedi fy ngalluogi i ddilyn fy niddordebau ac wedi rhoi i mi brofiad amhrisiadwy ar gyfer trydedd flwyddyn fy ngradd mewn Gwyddor Daear Amgylcheddol ac ar gyfer fy rhagolygon am yrfa yn y dyfodol.

Cregyn Llong, Morgloddiau a Bioamrywiaeth

John Dixon, BSc Daeryddiaeth

Ers symud i Aberystwyth i ddod i'r Brifysgol rwyf wedi cael fy nghyfareddu gan arfordir Bae Ceredigion. Drwy astudio Daeryddiaeth a gwirfoddoli gyda Chanolfan Bywyd Gwylt Morol Bae Ceredigion yng Nghei Newydd rwyf wedi dysgu llawer am yr amgylchfyd hwn, felly pan ddaeth hi'n amser i ddewis pwnic fy nhraethawd, rhuthrais at y cyfle i ennill gwell dealltwriaeth o'r arfordir hwn.

Er mwyn cyfuno'r wybodaeth rwyf wedi ei chael drwy gyfrwng fy ngradd yn Aberystwyth a'm hoffter o arfordir Cymru rwyf wedi penderfynu edrych ar ecoleg yr arfordir a'r problemau sy'n ei wynebu.

Mae ardaloedd arfordirol ledled y byd yn cael eu bygwth yn fwyfwy gan godiad yn lefel y môr a stormusrwydd cynyddol, sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd. Amcangyfrifir y bydd 75% o boblogaeth y byd yn byw o fewn yr ardaloedd arfordirol erbyn 2025, gan greu rhagor o ddatblygu a gweithgaredd. Mae pwysau newid hinsawdd a datblygiad dynol wedi gorfodi awdurdodau i adeiladu amddiffynfeydd arfordirol, megis torddyfroedd, grwynau a morgloddiau, i atal llifogydd a difrod. Wrth wneud hynny mae'r amddiffynfeydd hyn wedi achosi colli cynefinoedd naturiol difrifol. Felly mae'n hanfodol bwysig lliniaru'r colli hwn ar gynefinoedd a chreu amddiffynfeydd arfordirol ecolegol gyfeillgar. Felly mae'r broblem hon wedi fy arwain i ymchwilio sut mae cynyddu bioamrywiaeth amddiffynfeydd arfordirol gan eu gwneud yn fwy ecolegol gyfeillgar.

Er mwyn casglu data ar gyfer fy nhraethawd gwnes waith maes yn nhref glan y môr Tywyn, sydd wedi ei lleoli ar arfordir Bae Ceredigion yng ngorllewin canolbarth Cymru. Mae gan arfordir y dref hanes o stormydd dinistriol ac mae hynny wedi arwain Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi amryw o amddiffynfeydd artiffisial ar hyd arfordir Tywyn. Canolbwyntiais fy ngwaith maes ar dorddwr Warwick Place, a godwyd gyda chyfuniad o greigiau gyda wynebau gwastad a chreigiau gydag wynebau rhigolog a wnaed gan ddyn. Er mwyn astudio ecoleg y strwythur, defnyddiais ddull samplu cwadrat ar hap i amcangyfrif y canran o rywogaethau gwahanol ar yr amddiffynfa.

Ers i mi ddychwelyd i Aberystwyth rwyf wedi bod yn dadansoddi fy nata ac rwyf wedi canfod rhai canlyniadau diddorol. Mae'n ymddangos bod y creigiau rhigolog yn cynnwys mwy o amrywiaeth rhywogaethau na chreigiau gwastad, sy'n awgrymu eu bod yn fwy ecolegol gyfeillgar. Gan fod y creigiau rhigolog yn fwy 'cymhleth' na'r rhai gwastad, mae hyn yn cefnogi'r syniad bod cymhlethdod cynefin cynyddol yn rhoi rhagor o fioamrywiaeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu hefyd ddull cost effeithiol newydd o greu amddiffynfa ecolegol gyfeillgar.

Drwy ychwanegu at yr ymchwil gynyddol yn y maes hwn gobeithiaf helpu i leihau dirywiad amgylcheddol parthau arfordirol ac i ychwanegu at y ddealltwriaeth o ecosystem arfordirol cymhleth. Rwy'n ddiolchgar iawn i Brifysgol Aberystwyth am ddyfarnu Gwobr W J Edwards i mi. Heb y wobr ni fyddai fy ngwaith maes wedi bod yn bosibl. Rwyf wedi dysgu llawer iawn am amgylchedd ffisegol Cymru drwy ymgymryd â'r ymchwil a thrwy gwrdd â llawer o Gymry lleol yn Nhywyn ac ymweld â threfi eraill megis Machynlleth ac Aberdyfi ar y ffordd.



Casglu data ar dorddwr Warwick Place yn Nhywyn



Hidlo'r samplau ar leoliad wedi'i gysylltu â'r Afon Goch



Er mwyn anrhydeddu cariad Bill at Gymru a'i ymrwymiad i gefnogi datblygiad academiaidd a phersonol ein myfyrwyr, cynlluniwyd y wobwr hon i gefnogi traethawd hir neu waith prosiect Cyd-anrhydedd sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o unrhyw agwedd ar yr amgylchedd ffisegol ac/neu ddynol yng Nghymru.

Afon Ystwyth

Penny Clarke, BSc Daeryddiaeth

Cynhaliodd Brooker a Morris (1976) astudiaeth i archwilio dosbarthiad a chyflenwad cymunedau macroinfertebratau yn Afon Ystwyth. Nod fy nhraethawd estynedig oedd i gwblhau cymhariaeth 27 mlynedd i'r astudiaeth uchod a darparu sail amserol ar gyfer dadansoddiad. Amcan fy astudiaeth oedd penderfynu a yw llygriad metel yn dal i effeithio ar afon Ystwyth. Mae mwyngloddio yn broblem amgylcheddol ddifrifol mewn dalgylchoedd mwyngloddio hanesyddol, ac mae hen broblemau Ystwyth wedi eu cofnodi'n dda, er hynny nid yw'r berthynas rhwng y newidion amgylcheddol ac ymateb yr ecosystem wedi eu deall yn ddigonol. Tra'n casglu data mesurais lawer o newidion, er mwyn dileu pob un ac eithrio llygredd, er mwyn ceisio cydberthnasu perthynas o'r fath.

Ers iddo gau yn yr 20fed ganrif, mae mwynglawdd Frongoch wedi gollwng 20 o dunelli metrig o sinc i Afon Ystwyth, ac mae rhagor wedi ei ollwng o fwynglawdd Cwm Ystwyth. Mae llawer o astudiaethau o lygriad y dalgylch hwn wedi eu cwblhau yn y gorffennol, gyda gwaith diweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn buddsoddi mewn dull graddol i leihau llygriad o'r fath. Byddid yn disgwyl gweld gwelliannau mewn cymunedau macroinfertebrat, fodd bynnag, mae pryderon wedi eu mynegi yn ddiweddar ynglŷn â thrwytholchiad posibl metelau trwm yn ystod llifogydd 2012 i afon Ystwyth. Gan fod digwyddiadau o'r fath yn digwydd yn amlach yn sgîl newid hinsawdd, mae'n rhaid darganfod beth yw effaith llifogydd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gorff cenedlaethol yn gyfrifol am reoli ac adfer llygredd metel mwyngloddiau, felly gall canlyniadau'r astudiaeth hon gefnogi a hyrwyddo gweithredu diymdroi i warchod yr afonydd rhag llygredd llifogydd neu ddarganfod yr ansawdd afonol ar hyn o bryd.



Traethlin Newidiol y Borth

Gareth Vaughan Williams, Daeryddiaeth Ffisegol

Mae agosrwydd trigolion y Borth at y môr, at system twyni anferth Ynys Las, ac at ecosystem unigryw Cors Fochno yn golygu bod yr arfordir ychydig filltiroedd i'r gogledd o Aberystwyth yn hynod o bwysig yn nhermau ei warchod rhag erydiad a llifogydd yn y dyfodol. Mae fy nhraethawd estynedig yn ymchwilio effeithiau y strwythur gwarchod yr arfordir artiffisial a godwyd yn ddiweddar yn y Borth ar yr arfordir godidog hwn.

Y strwythur artiffisial alltraeth yn Ne'r Borth



Lluniwyd y strwythur artiffisial a osodwyd yn y môr yn rhan ddeheuol y Borth yn 2012 gan fod llawer o dai ar hyd yr arfordir yn gwbl agored i stormydd y gaeaf. Amcan y prosiect £13 miliwn hwn oedd gwasgaru egni'r tonnau; a hwyluso croniant gwaddodion yng nghysgod y strwythur. Gan fod y cynllun gan Gyngor Sir Ceredigion yn dal yn ei blentynod, mae gwybodaeth am ei effeithiau ehangach yn gyfyngedig ac mae gofyn deall y ddynnameg arfordirol leol bresennol.

Ariannwyd fy nghostau teithio yn ôl ac ymlaen i'r Borth i wneud fy ymchwil dros gyfnod o 6 mis gan wobwr WJ Edwards. Tra yn y Borth roeddwn yn astudio proffil traeth y traethlin, gwaddodeg a mwynoleg er mwyn deall effeithiau'r strwythur yn ystod y chwe mis. Mae'r canlyniadau cynradd yn dangos bod croniant mawr o waddodion wedi digwydd yng nghysgod y strwythur gwarchod yr arfordir, tra oedd erydiad i'w ganfod ar yr arfordir o gwmpas. Rwy'n edrych ymlaen at gyflawni dadansoddiad pellach a dadansoddiad ystadegol ar fy samplau a fydd, gobeithio, yn datgelu mwy am draethlin newidiol y Borth.



Newidiadau'r traeth, a amlygir mewn ffotograff o'r allwthiad tywod yn Ne'r Borth. Mae bar tywod yn allwthio i'r môr yng nghysgod y strwythur alltraeth.

Gwobrau a Chymdeithasau

Bob blwyddyn dyfarnir ystod o wobrau i ariannu teithio a dysgu er mwyn i'n myfyrwyr allu gael profiad o fywyd yn y DG a thu hwnt. Drwy gyfrwng y rhain a'r amryfal gymdeithasau a digwyddiadau yn yr Adran Ddaeryddiaeth a Gwyddorau Daear a ledled Prifysgol Aberystwyth, mae digonedd o gyfleoedd i wneud ffrindiau newydd ac i ddatblygu sgiliau gwerthfawr.

Cystadleuaeth Ffotograffig 2013

Ysbrydoli, Diddori, Bywiogi, Darganfod

Dyma'r hyn rydyn ni fel adran yn ei gredu yw hanfod Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Eleni ar gyfer cystadleuaeth ffotograffig yr Adran roedden ni am i'n myfyrwyr ddangos a rhoi gwybod i ni beth mae'r pethau hyn yn ei olygu iddynt hwy yn nhermau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Roedd pedwar categori:

Ysbrydoli – Delweddau sy'n eich ysbrydoli yn eich atudiaeth, ac yr ydych yn credu a fyddai yn ysbrydoli eraill i astudio Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

Diddori – Dangos pobl yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, neu ddelweddau a fydd yn diddori pobl.

Bywiogi – Delweddau cyffrous sy'n dangos nad rhywbeth yn ymwneud â lliwio pethau yn unig yw Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear!

Darganfod – Dod o hyd i rywbeth gwahanol, rhywbeth nad oes neb arall wedi ei ddarganfod o bosibl, neu ddelwedd sy'n cyfleu'r llawenydd o ddarganfod rhywbeth.

Eleni eto rydyn ni wedi cynnwys nid yn unig y teithiau maes y bu myfyrwyr arnynt drwy gydol eu hastudiaethau (Seland Newydd – Gogledd a De, Creta, Efrog Newydd, Iwerddon – pob taith, Gogledd Cymru a Chernyw), ond delweddau a dynnwyd eleni yn Aberystwyth neu yn ystod gwyliau'r haf. Roedden ni'n gwybod bod cymaint o'n myfyrwyr wedi bod ar anturiaethau rhyfeddol yn ystod 2013 ac roedden ni am weld a chlywed amdanynt.

Dyfarnwyd gwobrau fel a ganlyn:

Y Wobr Gyntaf am y Ffotograff Gorau – Tocyn Amazon gwerth £50

Y Wobr Gyntaf ym mhob Categori a nodwyd – Tocyn Amazon gwerth £30

Uchafswm o dri ffotograff, Canmoliaeth Uchel – Tocyn Amazon gwerth £20




Nicholas Simmons -

Enillydd Cyffredinol

Lleoliad y ffotograff: Svalbard

Mae'r ddelwedd hon yn ysbrydoli daearyddiaeth oherwydd ei bod yn cynnwys llawer o nodweddion daearyddol nodweddiadol mewn un ffotograff; mae'r mynydd gydag eira ar ei gopa, yr afon droellog a'r heulwen yn adlewyrchu oddi arni yn ei wneud yn ffotograff perffaith i ysbrydoli daearyddiaeth.

Sophie Tumber - Enillydd Ysbrydoli.
Lleoliad y ffotograff: Brazil



Laura Read - Enillydd Diddori.
Lleoliad y ffotograff: Traeth y Gogledd, Aberystwyth



Helen Morgan - Enillydd Bywiogi.
Lleoliad y ffotograff: Diffeithwch y Kalahari, Botswana



Sophie Tumber - Enillydd Darganfod.
Lleoliad y ffotograff: Central Park, Efrog Newydd



Zoe McWilliams - Darganfod, Canmoliaeth Uchel.
Lleoliad y ffotograff: Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion



Nicholas Simmons - Darganfod, Canmoliaeth Uchel.
Lleoliad y ffotograff: Mt Cook, Seland Newydd



Cymdeithas Ddaeryddiaeth (GeogSoc) Aberystwyth Hyd Yma!



Mark Sutton - Llywydd

I'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn gwybod beth yw 'GeogSoc', ni yw Cymdeithas Ddaeryddiaeth unigryw Aberystwyth. Rydyn ni'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cynnwys cyfarfodydd cymdeithasol o gwmpas Aberystwyth, teithiau i fannau daearyddol perthnasol o gwmpas y wlad a digwyddiadau addysgol i helpu myfyrwyr gyda phrosiectau ac aseiniadau.

Bu eleni yn flwyddyn wallgof i ni yn Geogsoc, a does dim ond 2 fis wedi mynd heibio! Rydw i wedi gweld Geogsoc yn tyfu o fod yn gymdeithas fechan i fod yn un o'r rhai mwyaf yn y brifysgol mewn cyfnod o 2 flynedd! Mae bod yn llywydd cymdeithas o'r fath wedi bod yn brofiad rhyfeddol i mi ac rydw i wrth fy modd yn bod yn rhan o'r fath gymdeithas yn y brifysgol.

Yn ystod y ddau fis cwta hyn, mae llawer o ddigwyddiadau wedi eu cynnal gan y gymdeithas. Bob wythnos rydyn ni'n cyfarfod ar ddydd Mawrth i fynd ar grwydr o gwmpas tafarnau'r dref. Yn ein noson gymdeithasol gyntaf eleni, roedd dros 100 o bobl wedi troi allan! Mae pob noson wedi bod yn fythgofiadwy, gyda themâu ffantastig i gael pawb mewn gwisgoedd ffansi er mwyn cael noson llawn hwyl! Rydyn ni wedi bod ar daith i ben Craig-glais ar noson tân gwyllt i weld Aberystwyth ar ei gorau a hefyd i weld ffilmiau yn y Commodore, gan gynnwys y ffilm Avengers ddiweddaraf, Thor: The Dark World.

Hanner ffordd drwy'r flwyddyn ddiwethaf trefnodd rhai o aelodau'r Geogsoc i chwarae gemau pêl-droed answyddogol yn wythnosol yn y ganolfan chwaraeon. Eleni rydyn ni wedi gwneud hyn yn drefniant mwy swyddogol sy'n digwydd bob dydd Mercher o 2pm hyd 3pm. Mae hyn wedi dod â llawer o aelodau'r gymdeithas at ei gilydd mewn lleoliad pêl-droed anffurfiol. Mae croeso i bawb pa bynnag mor dda neu wael yw eich sgiliau pêl-droed – felly dewch draw i gael hwyl!

Rydyn ni hefyd wedi trefnu tripiâu, gyda thrip siopa Nadolig a thaith i 'Animalarium' y Borth lle bu llawer o'n haelodau yn gwirioni ar y lemyriaid a'r 'meerkats' (a minnau, rhaid i mi gyfaddef, yn eu plith). Bydd digwyddiadau addysgol yn digwydd yn fuan i helpu myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf gyda'u prif brosiect cyn y Nadolig ac i helpu myfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn i ddod at ei gilydd i drafod dulliau adolygu ac i rannu nodiadau. Dydyn ni ddim am i neb deimlo ei fod yn cael ei anwybyddu yn y gymdeithas ac rydyn ni i gyd yn helpu'r naill y llall lle mae ein haddysg yn y cwestiwn.

Rydyn ni hefyd wedi cynnal amryw ddigwyddiadau yn yr adran er mwyn gwella cysylltiadau gyda staff. Fe fuon ni'n helpu ar stondinau'r adran a C3W yn yr Wythnos Gwyddoniaeth a Pheirianeg.

Hefyd, fe fuon ni'n helpu yn Nyddiau Agored y Brifysgol eleni ar gais Dr Andrew Thomas. Roedd hyn yn brofiad gwirioneddol bleserus ac yn rhoi i ni gyfle i ddwyn i gof y dyddiau brawychus hynny pan oedden ninnau'n dewis pa brifysgol i'w mynychu. Rydyn ni yn y broses o drefnu gêm bêl-droed rhwng y staff a'r myfyrwyr er mwyn dod ag ychydig o gystadleuaeth i'r adran (gobeithio na fydd yn ormod o gystadleuaeth i rai!).

Yn ystod yr ychydig fisoedd byrion hyn rydyn ni wedi cyflawni llawer, gyda 140 o aelodau a digwyddiadau wythnosol sy'n gwneud ein profiadau prifysgol yn rhai bythgofiadwy, diolch i ddaeryddiaeth. Dydyn ni ddim wedi cyrraedd hanner ffordd drwy'r flwyddyn ac rwy'n gwbl hyderus mai eleni fydd blwyddyn orau GeogSoc erioed!

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth amdanom, cysylltwch â ni ar SCTY02@ABER.AC.UK. Byddwn yn hapus i ateb unrhyw gwestiwn am y gymdeithas. Yn ogystal dewch i'n cyfarfodydd cymdeithasol ar ddydd Mawrth er mwyn cwrdd â'r myfyrwyr eraill sydd ar yr un cwrs ac i gael hwyl na fu ei debyg yn Aberystwyth. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd yn fuan!



Gwobrau Teithio

Bob blwyddyn mae'r Adran Ddaeryddiaeth a Gwyddorau Daear yn cynnig hyd at 13 o wobrau teithio gwerth hyd at £400 yr un i fyfyrwyr sy'n awyddus i weld y byd. Dyma hanes rhai o'r rhai a lwyddodd i ddod yn ôl!

"Roedd fy antur i'r India yn brofiad a newidiodd fy mywyd, a hoffwn ddiolch i Brifysgol Aberystwyth a gwobr teithio Gareth Thomas am ei gwneud yn bosibl."

Aimee Hutchinson



Abigail Russon – 3^{edd} Blwyddyn BSc Daeryddiaeth, yng Ngwlad y Thai

Yn ystod yr haf treuliais 4 wythnos yng Ngwlad y Thai yn dysgu am dechnegau ffermio cynaliadwy ac organig yn ardaloedd gwledig Chang Dao. Yn ystod yr amser hwn, dysgwyd fi am warchodaeth bywyd gwyllt, yn ogystal â gweithio ar y fferm ei hun yn plannu ac yn gwneud gwaith adeiladu. Treuliais beth amser hefyd yn dysgu Saesneg mewn ysgol leol.

Yn academiaidd, cefais brofiad uniongyrchol o'r problemau sy'n rhaid eu hwynebu ym maes technegau ffermio organig a chynaliadwy yn yr ardal wledig hon, ac o'r ffordd y mae'r hinsawdd yn y wlad hon yn penderfynu i raddau helaeth beth fydd allbwn cynnyrch y ffermwyr hyn. Yn bersonol, profais ymdeimlad o gyflawniad wrth wybod y byddai'r bwydydd a blannwyd yn darparu incwm ar gyfer y ffermwr hwnnw. Ymdrwythais fy hun hefyd yn y diwylliant newydd hwn er mwyn deall eu credoau a'u ffordd o fyw, ac rwy'n teimlo i mi sicrhau dealltwriaeth amgenach o'r wlad yn sgil y profiad.



Jess Reynolds – 3^{edd} Blwyddyn BA Daeryddiaeth Ddynol, gweithiodd yn Uganda

Yn ddiweddar enillais Wobr Teithio Gareth Roberts, a'm galluogodd i wireddu fy hoffter o deithio ac o wneud gwaith elusennol yn Uganda. Treuliais bythefnos yn Ysgol Gynradd Eglwys Uganda yn Kyoga yn rhanbarth Mukono. Roeddwn yn cymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol yn cynnwys dysgu Saesneg a chwaraeon drama a chwaraeon eraill gyda'r plant.

Roedd dysgu am ddiwylliannau gwahanol yn fy swyno'n lân. Byddwn yn argymhell pawb i deithio cymaint ag y bo modd oherwydd mae'r profiad yn amhrisiadwy.

economaidd, tlodi a dadleoli i'w canfod yn gyson. Heblaw hynny roedd byw mewn cymuned gynaliadwy ac mewn ffyrdd amgylcheddol gyfrifol yn gymaint o addysg. Mae byw yn 'sylfaenol' yn ein dysgu cyn lleied rydyn ni wir ei angen i fyw ac yn ein galluogi i herio'r ffordd rydyn ni byw gartref, neu yn gwneud i ni addunedu i newid ta beth! Diolch unwaith yn rhagor i Wobr Teithio Gareth Thomas!



Sophie Ellerker – 3^{edd} Blwyddyn BA Daeryddiaeth Ddynol, gweithio gyda phlant awtistig yn Fietnam

Fe es i Hanoi, Fietnam am 3 wythnos i weithio'n wirfoddol yn y Ganolfan 'Morning Star'. Canolfan dydd yw hwn ar gyfer addysgu plant rhwng 2 ac 11 oed sy'n dioddef afiechyd meddwl. Mae'r ganolfan yn defnyddio nifer o athrawon anghenion arbennig, seicolegwyr a phobl feddygol broffesiynol i ganfod arwyddion cynnar anableded meddyliol. Mae'r ganolfan yn helpu llawer o blant ifanc ond gan eu bod angen sylw ychwanegol nid yw'r staff o 100 yn ddigon ac mae croeso i wirfoddolwyr o bob rhan o'r byd ddod i helpu gyda thasgau sylfaenol megis bwydo'r plant a golchi'r lloriau.

Yn anffodus oherwydd difrifoldeb awtistiaeth, roedd hi'n anodd cael y plant i ddeall sut i chwarae gyda theganau. Felly un o'r pethau y bûm i'n helpu oedd ceisio eu cael i ymddiddori mewn chwarae.

Un o'r pethau gwych ynglŷn â Fietnam oedd y cyfle i'm trochi fy hun mewn diwylliant cwbl wahanol. Mae'r ffordd o fyw yn gwbl wahanol i'r hyn ydyw yn y DG. Yn ystod un trip penwythnos rhentwyd ystafell mewn cartref teuluol lle roedden ni'n cysgu ar y llawr o dan rwydi mosgito ac yn bwyta bwyd traddodiadol Fietnam (reis, nwdls a llyisiau) gyda 'chopsticks'.

Yn gyffredinol mae'r profiad hwn wedi bod yn fuddiol i mi mewn llawer ffordd. Roeddwn i'n gallu trwytho fy hun mewn diwylliant cwbl wahanol drwy fyw mewn modd sylfaenol, teithio i leoliadau o ddiddordeb diwylliannol a bwyta bwyd traddodiadol y wlad. Roeddwn i'n gallu deall bywyd yn un o wledydd y trydydd byd ac roedd hynny o ddiddordeb arbennig i mi gan fy mod yn ystyried mai datblygiad rhyngwladol, tlodi a chymorth bydd fy maes yn y dyfodol.



Helen Duley – 2nd Blwyddyn BA Daeryddiaeth Ddynol, teithio drwy India

Treuliais y 3 wythnos gyntaf yn byw a gweithio'n wirfoddol yn Fforest Sadhana – cymuned wirfoddol sy'n ymwneud â gwaith adnewyddu ecolegol a bywyd cynaliadwy. Roedd y gwaith yn y goedwig ifanc yn cynnwys mesurau cadwraeth dŵr a oedd yn golygu cloddio tyllau a chodi byndiau i ddal a chronni dŵr wyneb.

Neilltuwyd y 5 wythnos nesaf i deithio ac yn ystod y cyfnod hwn llwyddwyd i deithio hyd India fwy neu lai drwy fynd i fyny'r arfordir dwyreiniol. Mynd drwy Tamil Nadu a Kerala, ymweld â Fort Cochin, Kollam, a Varkala. Oddi yno, mynd tua'r gogledd i Goa, Mumbai ac yna i Rajasthan gan ymweld â Udaipur, Pushkar a Jaipur cyn mynd ymhellach i'r gogledd i Amritsar yn Punjab lle buwyd yn aros yn Nheml Euraidd y Sikh. Y lle nesaf oedd McLeodGanj, Dharamsala yng ngodre'r Himalayas ac yn ôl i lawr i Agra.

Mae'r daith hon wedi agor fy llygaid mewn sawl ffordd yn academiaidd ac yn bersonol; daeth llawer o'r themâu mewn daeryddiaeth ddynol yn fwy real wrth eu gweld â'm llygaid fy hun – roedd gorboblogi, anghydraddoldeb



Stephen Williams - 2^{il} Blwyddyn, BA Daearyddiaeth Ddynol, ymwelodd â Pharc Thema Disneyland, Los Angeles

Ymgeisiais am Wobr Teithio Gareth Thomas ar ôl penderfynu gwneud fy nhraethawd trydedd flwyddyn ar y ffordd roedd Walt Disney yn dehongli'r dyfodol yn ei barc thema Disneyland yn Los Angeles. LA oedd y parc gwreiddiol, a'r unig un gyda chyfraniad llawn Walt yn ei gynllun. Fy nod oedd gwneud dadansoddiadau gweledol a thestunol o'r parc, ac, os gallwn, cael trafodaethau anffurfiol gydag Aelodau'r Cast a thywyswyr oedd yn gweithio i Disneyland.

Treuliais y diwrnod cyntaf yn California yn dod i ddygymod â'r gwres yn Universal, ac wrth gwrs yn rhoi cynnig ar yr holl reidiau a sioeau! Treuliais y pum diwrnod canlynol yn Disneyland a Disney's California Adventure, lle roedd craidd fy ymchwil yn digwydd. Ar ôl cyfarwyddo â'r parc, euthum i 'Tomorrowland' a threulio oriau yn cerdded o gwmpas, yn ymweld ag atyniadau, yn tynnu lluniau o bob modfedd o'r parc ac yn sgwrsio gydag aelodau'r cast a'r tywyswyr oedd yn arbenigo yn hanes a dyfodol y parc. Roedd mynd yno a chyflawni'r gwaith maes yno yn brofiad ffantastig – mae pobl wedi ysgrifennu am y parc ac wedi tynnu ei luniau lawer gwaith yn y gorffennol, ond roedd y profiad o fod yn y parc, y cyffro, a maint a chynllun yr adeiladau yn rhywbeth na ellid ei atgynhyrchu ar bapur.

Yn academiaidd, cefais sylfaen ffantastig ar gyfer fy nhraethawd, sylfaen na fyddwn wedi ei chael oni bai fy mod wedi mynd yno i ymchwilio. Roedd siarad gyda'r staff a'r ymwelwyr yn rhoi i mi brofiad real a ni ellid bod wedi atgynhyrchu'r dadansoddiad gweledol o fod yn y parc y tu allan i Disneyland.



Aimee Hutchinson - 2^{il} Blwyddyn, BA Daearyddiaeth Ddynol, gwirfoddoli yn India

Yn ystod haf 2013 treuliais bythefnos yn Faridabad, ger New Delhi yn India. Roeddwn i ar raglen gwirfoddoli gyda 'Plan My Gap Year' (PMGY) yn gweithio ar gynllun rhoi grym i fenywod ac yn dysgu Saesneg a Mathemateg mewn ysgol slym. Tra oeddwn yn Faridabad roeddwn i'n aros gyda theulu hynod o groesawus.

Tra yn India, roedd y gwrthgyferbyniad llwyr rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn gyson amlwg. Er bod 29.8% o'r boblogaeth yn byw mewn tldi (Banc y Byd, 2010), roedd gweithio yn ysgol y slymiau yn bleser. Er gwaethaf safonau isel yr ysgol a'r gwres 40 gradd, roedd y plant i gyd yn awyddus i ddsygu bob amser. Fodd bynnag, roedd iaith yn broblem a olygai nad oedd dysgu mor hawdd ag y dylasai fod – roedd y plant i gyd yn siarad Hindi yn rhugl, iaith nad oedd gen i unrhyw wybodaeth flaenorol ohoni. O ganlyniad, fe gynyddodd fy sgiliau cyfathrebu yn rhyfeddol.

Roedd fy antur yn India yn brofiad a newidiodd fy mywyd, a hoffwn ddiolch i Brifysgol Aberystwyth a Gwobr Teithio Gareth Thomas am ei gwneud yn bosibl.



Robert Hayden - 2il Blwyddyn Gwyddor Daear Amgylcheddol, fforiodd Iwerddon

Wedi fy ngwobrwyo â Gwobr Deithio, penderfynais ddefnyddio'r arian i deithio i Ddwyrain Iwerddon. Prif nod fy nhaith oedd i gasglu data i fy nhraethawd estynedig, sydd yn ymwneud â safleoedd adferiad ym mwynefydd copr Avoca. Yn ogystal, buasai'n drueni pe na fyddwn yn fforio cefn gwlad godidog Mynyddoedd Wicklow, felly daeth dau o'm ffrindiau gyda mi i ymlwybro drwy'r mynyddoedd.

Wedi i mi orffen y gwaith o gasglu samplau, treuliom ein hamser yn cerdded Mynyddoedd Wicklow. Y gorau oedd Lugnaquilla sef y

13eg mynydd uchaf yn Iwerddon. Roedd hi'n hawdd cerdded y mynyddoedd can bod y llwybrau cerdded yn glir – roedd hyn yn dipyn o gymorth pan yn niwlog!



Alyssa Paterson Murphy - 2^{il} Blwyddyn, BA Daearyddiaeth Ddynol gydag Addysg, ymgollodd yn 'ne eithaf' yr Unol Daleithiau

Yr haf hwn treuliais saith wythnos yn Mississippi yn gweithio mewn camp i blant difreintiedig o daleithiau Alabama, Louisiana a Mississippi. Roedd mwyafrif y plant oedd yn mynychu'r camp yn dod o gefndiroedd difreintiedig, rhai ohonynt yn dod o gartrefi a theluoedd oedd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan gorwynt Katrina yn 2005, a ddisgrifwyd fel y trychineb fwyaf costus yn hanes yr Unol Daleithiau.

Tra yn New Orleans euthum ar daith bws Corwynt Katrina. Roedd y daith yn mynd â ni o amgylch y ddinas gyda thywysydd yn adrodd ei phrofiad hi o'r diwrnod ac yn tynnu ein sylw at ardaloedd oedd wedi eu heffeithio ac wedi eu dinistrio mewn rhai achosion. Roedd gweld yr adfeilion yn wirioneddol ddiddorol ac yn dod â'r hyn a welwn mewn gwrslyfrau ac ar y cyfryngau yn fyw gan ehangu fy nirdaeth o'r trychineb a'm galluogi i sylweddoli effaith y trychineb yn llawn. Roedd hefyd yn fy ngalluogi i werthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei wneud i adfywio'r ardal, megis Prosiect Pitt, dan arweiniad Brad Pitt, yr actor o Hollywood.

Hoffwn ddiolch i'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear am ddyfarnu Gwobr Teithio Gareth Thomas i mi, gan fy mod yn teimlo bod hynny wedi galluogi i mi gael un o hafau gorau fy mywyd. Mae wedi rhoi'r cyfle i mi brofi diwylliant hynod o ddiddorol a chyfareddol sy'n llawn o hanes a phwysigrwydd ac rwy'n teimlo bod llawer o'r golygfeydd a'r pethau a welais ac a deimlais a'i dysgu, gan gynnwys y bywyd gwyllt a rhyngweithio gyda'r bobl leol a blasu eu bwyd, wedi cyfoethogi fy ngwybodaeth am 'Dde Eithaf' America, a gallaf yn sicr hawlio bod gennyf bellach ddirnadaeth eangach a chywirach o'r 'De Eithaf' ac mae hynny'n hanfodol i Ddaearyddwr.

Newyddion Ôl-raddedig

O astudiaeth ôl-raddedig i brofiadau graddedigion, unwaith y byddwch wedi ennill eich gradd gyntaf mewn Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear, bydd y byd i gyd wrth eich traed!



Sam Fensterheim, BA Daeryddiaeth Ddynol

Mae'r cyfeiriadau y gall bywyd eich arwain iddynt yn rhyfeddol. Ar ôl cwblhau fy BA mewn Daeryddiaeth Ddynol doedd dim hyd yn oed wythnos wedi mynd heibio cyn i mi neidio ar fy meic a chychwyn reidio i gyfeiriad Seland Newydd. Yn ystod y ddau fis a hanner a gymerodd hi i mi deithio'r 6,000 milltir rhwng Lloegr a phen y daith, sef Iran, dim ond gyda phobl gwbl ddiethr yr arhosais. Roeddwn i naill ai'n defnyddio Couchsurfing.org, gwefan lletygarwch lle gall rhywun drefnu i aros yn rhad ac am ddim yn nhai pobl eraill, neu yn gofyn i bentrefwyr fy helpu gan ddangos iddynt lythyr, roedd fy nghyfeillion wedi fy helpu i'w gyfieithu, yn adrodd fy hanes ac yn gofyn am le i godi fy mhabel.

O'r diwedd cyrhaeddais Iran a syrthio mewn cariad â'r wlad. Penderfynais yn syth y byddwn yn aros yno i ddysgu Saesneg, ond oherwydd y cyfyngiadau llym ar deithebau, ni allwn gael teitheb gweithio. Yn lle hynny ymrestrais ar gwrs Perseg ac wrth i'r amser fynd heibio cefais fy hun yn dysgu iaith, rhywbeth na fyddwn byth wedi dychmygu ei fod yn bosibl! Blwyddyn yn ddiweddarach daeth yr awydd i deithio eto a gyda fy niddordeb newydd mewn ieithoedd penderfynais ymweld ag Affganistan. Roeddwn i eisiau bod yn gyfieithydd, ond gwelais bod y rhan fwyaf o swyddi yn ymwneud â'r fyddin a bod agweddau'r wlad braidd yn gul at fy chwaeth i.

Yn raddol teithiais tuag adref gan fynd drwy Tajikistan, Rwsia a Latfia cyn mynd ar daith bws 2 ddiwrnod a ddaeth â fi yn ôl i Loegr. Unwaith eto, aeth yr awydd i deithio yn drech na fi ac i ffwrdd â mi ar awyren i Seland Newydd. Treuliais bedwar mis yno cyn ymgeisio am swydd athro yn Korea. Cefais fy nerbyn a chan fy mod mewn dirfawr angen arian dechreuais ddysgu yn Korea. Goddefais flwyddyn a hanner o oriau blinderus, yn gweithio goramser ac yn dysgu dosbarthiadau preifat. Roeddwn yn dysgu Sbaeneg ar yr un pryd ac yn cael fy nysgu gan ddyn o Colombia a oedd yn byw yn fy nghartref i ar yr amod ei fod yn siarad Sbaeneg gyda mi. Pan oedd gen i ddigon o arian yn y banc ffarweliais â Korea ac ar ôl gwibdaith drwy Ewrop a galw adref am ychydig eheadais i Colombia.

Dyna le rydw i ar hyn o bryd. Rwy'n parhau i astudio Perseg am deirawr bob bore ac yn treulio gweddill fy amser yn dysgu Sbaeneg. Mewn ychydig fisoedd rwy'n gobeithio cychwyn ar gwrs mewn ieithyddiaeth mewn prifysgol yng Ngholombia gyda'r bwriad o fod yn gyfieithydd rhwng y tair iaith.

Graduate Biogs



Jennie Orrell, BSc Daeryddiaeth

Yn ystod yr haf cyn fy mlwyddyn olaf yn astudio Daeryddiaeth yn Aberystwyth bûm ar interniaeth gyda'r elusen amgylcheddol, *Peterborough Environment City Trust*, yn fy nhref enedigol. Galluogodd hyn fi i ennill sgiliau hanfodol yn y gweithle, i gael data ar gyfer prosiect traethawd fy mlwyddyn derfynol ac i wneud llawer o gysylltiadau yn Peterborough nad oeddwn wedi credu y byddent yn fy helpu gymaint. Pan raddiais yng Ngorffennaf euthum yn ôl i Peterborough heb unrhyw syniad beth oeddwn i'n mynd i'w wneud. Y cwbl wyddwn i oedd fy mod eisiau gwneud rhywbeth yn y sector amgylcheddol ac os yn bosibl rhywbeth yn ymwneud â chynladwyedd. Ar ôl ceisio'n aflwyddiannus am nifer o swyddi, anfonodd un o'r cysylltiadau roeddwn i wedi eu gwneud yn ystod fy interniaeth fanylion am arian oedd ar gael i ddilyn cwrs gradd meist. Cyflwynais gynig amdano a chael fy nerbyn, golygai hynny fy mod yn cael dechrau ar gwrs meist rhad ac am ddim mewn cynladwyedd, ac rwyf wedi cychwyn ar y cwrs y mis diwethaf. Cwrs dysgu o bell (gyda chyfnodau preswyl) drwy Brifysgol Anglia Ruskin ac mewn partneriaeth â'r Prosiect Eden yw hwn. Yn weddol fuan ar ôl cychwyn ar y cwrs, daeth y *Peterborough Environment City Trust* i gysylltiad â mi a gofyn i mi reoli prosiect ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu fy mod yn cael fy nhalu am weithio dau ddiwrnod yr wythnos yn y sector amgylcheddol ac mae'n dangos hefyd bod fy ngwaith gwirfoddol wedi bod yn wirioneddol werthfawr a buddiol. Yn ogystal â hyn, rwyf hefyd yn gwirfoddoli i weithio am un diwrnod yr wythnos gyda Thim Newid Hinsawdd y cyngor lleol, a gallai hynny arwain at gyflogaeth bellach. Teimlad braf yw bod yr holl bethau hyn rwyf yn eu gwneud ar hyn o bryd yn bethau y mae gennyf ddiweddordeb gwirioneddol ynddynt, ac mae hyd yn oed yn brafiach gwybod na fydd gofyn i mi weithio fel glanhawr er mwyn talu fy ffordd. Er i mi fod yn ffodus gan fod popeth wedi disgyn i'w lle gyda'i gilydd, mae'r ffaith i mi wirfoddoli yn y lle cyntaf wedi tanategu popeth rwy'n eu gwneud ar hyn o bryd, felly dyma rhywbeth y byddwn yn ei argymhell y dylech ei wneud yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol.



Delwedd gyfrifiadurol o'r morlyn llanw arfaethedig ym Mae Abertawe



Owain (dde) yn cyfnewid anrhegion gyda chydweithwr yn y Valorem, Ffrainc

Owain Morris, BSc Daeryddiaeth

Ar ôl graddio yn Aberystwyth yn 2012, llwyddais i gael lle ar y cynllun Leonardo Da Vinci, cynllun sy'n cael ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a CCAUC er mwyn i raddedigion Cymreig astudio iaith a chael profiad lleoliad gwaith mewn gwlad Ewropeaidd. Bûm yn byw yn Bordeaux yn Ffrainc am bedair wythnos ar ddeg. Roedd hyn yn cynnwys pedair wythnos o wersi Ffrangeg dwys yn cael ei ddilyn gan leoliad gwaith am ddeg wythnos. Roeddwn i'n gweithio i gwmni ynni adnewyddadwy o'r enw Valorem lle roeddwn i'n darparu cymorth technegol, yn cynorthwyo i gyfieithu dogfennau, adroddiadau a gwefan y cwmni yn ogystal â helpu gyda chyfathrebu yn Saesneg. Byddwn yn argymhell y cynllun hwn i unrhyw un sy'n ansicr beth yn union y mae am ei wneud ar ôl graddio.

Yn ffodus, erbyn yr amser pan gyrhaeddais yn ôl adref i Abertawe, llwyddais i gael gwaith fel Cydgysylltwr Rhanddeiliaid Morlyn Llanw Bae Abertawe, yn gweithio ar brosiect ynni adnewyddol bwysig sydd â chysylltiad agos â'm traethawd estynedig. Tra mai cynnig yn unig yw'r prosiect ar hyn o bryd, os bydd yn llwyddiannus, y morlyn fydd y cyntaf o'i fath yn y byd. Yn ogystal â chynhyrchu ynni glân, bydd y morlyn yn darparu buddiannau eraill megis creu swyddi, a chyfleoedd chwaraeon, addysgol a thwristiaeth.



Paul Edwards, BA Daeryddiaeth Ddlynol

Ar ôl graddio cefais fy nghyflogi yn adran Cyllid 'General Electric Aviation' gan ennill y swydd am mai fi oedd yr unig ymgeisydd gyda gradd. Symudais i Berkshire yn syth ar ôl graddio am mai dyma'r ardal lle mae fy nghariad yn byw; bûm mewn ychydig o swyddi dros dro yna cefais fy nhraed danaf yn IHS a bûm yn astudio yn rhan amser ar gyfer gradd MA mewn Hanes Celf yn Reading. Roedd fy nhraethawd ymchwil yn edrych ar Bill Reid, yr artist o Ganada, a sut y daeth i gynrychioli hunaniaeth Columbia Brydeinig fel talaith ar ôl yr Ail Ryfel Byd...roedd hyn yn ymwneud llawer iawn â lle ac roeddwn i'n cyfeirio at lawer o ddaeryddwyr gan roi cryn sioc i fy narlithwyr hanes celf sydd!

Ar hyn o bryd rwy'n atebol i Gyfarwyddwr Caffael EMEA ac yn darparu adroddiadau dadansoddi costau a metrau eraill ar gyfer y tîm a'm cydweithwyr. Byddaf yn cysylltu gyda chyflenwyr i drafod contractau a chytundebau ac yn gweithio gyda chydweithwyr i arbed arian i'r cwmni. Mae IHS yn "hyrwyddo penderfyniadau sy'n hyrwyddo'r byd" ac yn darparu mewnwelediad a dadansoddiadau mewn pedwar maes allweddol: Awyrfod, Amddiffyn & Morwrol, Ynni, Modurrol ac Electroneg & Cyfryngau.

Nid yw gwybod beth yw lefel y bygythiad i bibell olew yn Oman neu wybod beth yw cost yr iPhone newydd yn ddim ond dwy ffaith sylfaenol y byddwn yn eu gwybod ac y byddwn yn gallu eu defnyddio i gynorthwyo cyrff fel Shell neu NATO i wneud penderfyniadau busnes.

Sam yn Svalbard: safbwynt amgen

Myfyrwraig PhD yw Sam Saville ac mae ei phrosiect, 'Polarising nature-culture: an examination of value in Svalbard' yn cael ei ariannu gan ESRC ac ADGD.



Stryd fawr Longyearbyen (a fi)



Dyma'r penddelw mwyaf gogleddol o Lenin sy'n edrych dros y sgwâr yn Pyramiden a thua Rhewlif Nordenskiöld



Metal sgrap a chydrrannau wedi eu hadfer yn aros i gael eu cludo yn ôl i dir mawr Rwsia o borthladd Pyramiden

Mae fy ymchwil yn edrych ar y gwahanol ffyrdd y mae gwerth yn cael ei gynhyrchu, ei gylchredeg a'i atgynhyrchu yn Svalbard. Mae gen i ddiddordeb arbennig yn y modd mae systemau gwerth yn ymwneud â, ac yn rhan o berthnasau gyda 'natur' yn y cyd-destun hwn. Mae gan Svalbard hanes o ymelwa ar adnoddau naturiol; o hela morfilod yn y 16eg ganrif hyd gloddio glo heddiw. Ar y llaw arall, mae llywodraeth Norwy yn awyddus i gadw Svalbard fel y Diffeithwch Ewropeaidd olaf ac mae wedi rhoi cais i UNESCO am statws treftadaeth y byd. Daw miloedd o dwristiaid bob blwyddyn i gael profiad o dywydd a goleuni'r Arctig, i archwilio'r arteffactau diwylliannol, i weld y bywyd gwyllt egsotig a'r rhewlifoedd tra bydd hi'n bosibl gwneud hynny. Tra bod cannoedd o ymchwilwyr a myfyrwyr gwyddonol yn gweithio yma yn archwilio amryfal agweddau rhewlifol, ecolegol a thechnegol y wlad rewllyd hon; mae digonedd yma i ddiddori daearegwr dynol!

Yr haf hwn es ar fy nhaith maes gyntaf i Svalbard. Ar ôl darllen a siarad cymaint am yr Ynysfor Arctig hwn, roedd rhoi fy nhroed ar y ddaear yno yn deimlad gwych! Ar gyfer yr ymweliad peilot byr hwn treuliais 10 diwrnod ym Longyearbyen, y brif dref Norwyaidd, yn dod i adnabod pobl, yn cynnal cyfweiliadau ac yn darparu cynlluniau ar gyfer fy mhrif daith maes y flwyddyn nesaf. Roeddwn wrth fy modd yn sgwrsio gyda'r amrywiaeth eang o bobl oedd yn byw yn y dref fechan hon; er nad oes dim ond 2,000 o bobl yn byw yno, mae pobl wedi cyrraedd yno o tua 40 o genhedloedd gwahanol am bob math o resymau – gwleidyddol, economaidd – neu am eu bod yn hoffi'r tirlun diffrwyth ond prydferth a'r bywyd gwyllt sydd yma. Mae'r tirlun dan drwch o eira, y golau dydd 24 awr a'r modelau o eirth gwynion ble bynnag rydych yn troi yn sicr o'ch swyno.

Bûm hefyd yn ddigon ffodus i ddianc o gyfyngiadau'r dref ac i ymuno â thaith maes rhyngddisgyblaethol gyda Sefydliad Brenhinol Technoleg Stockholm a Phrifysgol Illinois a gwersylla am wythnos ym Mae Petunia, ychydig gilomedrau o dref mwyngloddio Rwsiaidd adawedig Pyramiden. Roedd archwilio'r dirwedd greigiog, mynd yn agos at rewlif a hyd yn oed gweld eirth gwyn byw (roedd digon o reifflau a rhai hysgwn gyda ni, rhag ofn) yn brofiad ffantastig. Os yw Longyearbyen yn nodedig am ei chyfleusterau modern a'i hymddangosiad o normalrwydd, mae Pyramiden yr un mor ddiddorol am y ddirnadaeth a geir yno o orffennol sofietaid gweiddol agos ond cwbl wahanol. Ar hyn o bryd rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd yn y gwanwyn i wneud archwiliad mwy trylwyr i'r tir Arctig unigryw a chyfareddol hwn.

S4/C

Ysbeidiau Heulog gyda Steffan!

Steffan Griffiths, Myfyriwr Ôl-raddedig

Fel cyflwynydd presennol tywydd S4C, ac yn fyfyrwr MSc Rhewlifeg rhan amser yn ADGD Prifysgol Aberystwyth, gwnaeth astudio BSc Daearyddiaeth Ffisegol yn Aberystwyth gyfrannu'n sylweddol at gael swydd yn y pen draw.

Yn bersonol, fel bachgen o Gaerfyrddin sydd wastad wedi bod â diddordeb mewn daearyddiaeth, roedd dewis Aberystwyth i wneud gradd israddedig yn ddewis amlwg a syml iawn o ganlyniad i enw da'r adran, profiad y darlithwyr a'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwr. O'r ystod eang o fodiwlau – gan gynnwys y modiwl arweinodd at fy swydd bresennol – i'r teithiau maes anhygoel, mae'r profiadau a'r hyder mae unigolyn yn ei dderbyn drwy astudio yn Aberystwyth yn amhrisiadwy.

Yn ystod fy ail flwyddyn yn Aberystwyth, penderfynais gymryd y modiwl 'profiad gwaith' gan ddewis mynd i adran dywydd S4C. Yma, dysgais am wahanol fodolau tywydd, sut i ragweld y tywydd a sut i'w gyflwyno ar gamera. O ganlyniad i'r profiad hwn ac wrth gadw mewn cysylltiad â'r cwmni, roeddwn yn falch iawn pan gefais swydd yno yn dadansoddi cywirdeb y tywydd ym Mehefin 2013, cyn graddio yng Ngorffennaf 2013.

Pedwar mis yn ddiweddarach, rwyf nawr yn gyflwynydd tywydd ar S4C ac yn ddiolchgar iawn i ADGD a sawl unigolyn arall, oherwydd heb eu help, profiad a'r cyfleoedd a gefais, byddai fy sefyllfa bresennol wedi bod yn amhosib.

Er hyn, nid oeddwn yn barod i adael y byd addysg nac i adael Aber ac, felly, rwyf hefyd yn fyfyrwr meistr rhan-amser yn astudio MSc Rhewlifeg yn adran Rhewlifeg Aberystwyth. Dyma raglen arbennig arall sydd yn cyflwyno her, profiadau a syniadau hollol newydd.

Ac felly, i unrhyw berson sydd yn cychwyn neu'n bwriadu mynychu'r brifysgol, fy nghyngor pennaf fyddai i wneud y mwyaf o'r amser, mwynhau ond hefyd gweithio'n galed, a chymryd pob cyfle er mwyn agor gymaint o ddrysau ag sy'n bosib!

| Dydd | Gwener | Sadwrn | Sul |
|---|---|--|-----|
| Glaw cymedrol a chyson yn ystod y bore yn troi i gawodydd erbyn y prynhawn. Ysbeidiau heulog tua'r gorllewin gan gymaedd 12°C ar ei orau. | Sych ar y cyfan yn ystod y bore, ond glaw yn cyrraedd ac yn ymledu erbyn hwyr prynhawn. | Bore sefydlog gyda chlynodau traf er mwy o law yn hwyrach. 9-11°C. | |

ADGD yn lansio MSc newydd mewn Newid Amgylcheddol, Effaith ac Addasiad

Mae'r MSc *Environmental Change, Impact and Adaptation*/Newid Amgylcheddol, Effaith ac Addasiad yn rhaglen newydd, bwrpasol, amlddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â'r sialensiau y mae newidiadau hinsoddol ac amgylcheddol eraill yn eu gosod i gymdeithas. Mae'n tynnu ar arbenigedd blaenllaw yn yr adran yn y gwyddorau naturiol a chymdeithasol er mwyn rhoi sylw i ystod o bynciau gan gynnwys: diffeithdiro, cylchoedd carbon daearol, llifogydd, rheoli risg, cofnodion newidiadau palaeoamgylcheddol, peryglon amgylcheddol, ymateb gwleidyddol, codiad yn lefel y môr ac effeithiau cynhesu a newidiadau glawiad ar brosesau ecosystem.

Mae'r cwrs yn dechrau gyda thaith maes dramor yn yr wythnos gyntaf pan fydd myfyrwyr yn dysgu dyfeisio eu harbrefion maes eu hunain i archwilio newid amgylcheddol. Ceir hyfforddiant hefyd mewn ystod o dechnegau blaengar megis meintioli gollyngiad CO₂ o briddoedd a dehongli tystiolaeth o newidiadau amgylcheddol yn y gorffennol yn y tirwedd. Ni fydd unrhyw arholiadau ysgrifenedig, yn lle hynny defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu amgen gan gynnwys llunio ffilmiau byr, papurau gwyn, adroddiadau tendr, gwaith cyfrifiadura ymarferol, arbrofion maes, adolygiadau a thraethodau.

Wrth ddyfeisio'r rhaglen, rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd a bydd y rhaglen yn sail gadarn i yrfaoedd yn y dyfodol mewn rheolaeth neu ymgynghoriaeth amgylcheddol, datblygu, lliniaru trychineb a rheoli risg yn ogystal ag ymchwil ar gyfer doethuriaeth yn y dyfodol. Bydd y myfyrwyr cyntaf yn dechrau ar y rhaglen Medi 2014.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys ysgoloriaethau sydd ar gael i helpu gyda'r ffioedd, cysylltwch â Dr Andrew Thomas ant23@aber.ac.uk neu chwiliwch am fanylion ar wefan ADGD/Prifysgol Aberystwyth.



Ymchwil Staff

Mae staff Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn hoffi cael eu traed yn rhydd o'r ystafelloedd darlithio a'r labordai i weithio ar eu hymchwil blaenllaw eu hunain yn y maes. Yma cewch gip ar ychydig o'r ymchwil arloesol sy'n mynd rhagddo yn Aberystwyth – a chyfle i gwrdd â'n seren deledu ni ein hunain!

Codi Llŵch yng Ngwlad yr Iâ

Carina Fearnley

Lluniau gan Carina Fearnley

Yn 2010 bu bron i'r byd ddod i sdop pan ffrwydrodd llosgfynydd gydag enw amhosibl ei ynganu yng Ngwlad yr Iâ gan saethu lludw folcanig mân i'r awyrgylch. Roedd y lludw hwn yn wydrog a thrwm ac roedd yn tagu injans awyrennau jet, sef rhan mwyaf costus yr awyren o ddigon. Yn 1982, methodd pob un o bedwar injan Boeing 747 yn perthyn i British Airlines, wrth hedfan drwy lwch folcanig mynydd Galunggung yn Indonesia a syrthiodd yr awyren dros 7 cilomedr cyn y llwyddwyd i ailgychwyn y peiriannau. Yn fuan ar ôl hynny, yn 1989, pan ffrwydrodd mynydd Redoubt yn Alasga, methodd holl beiriannau 747 arall a dim ond munudau oedd rhyngddi a tharo'r mynyddoedd pan lwyddwyd i'w hailgychwyn. Achoswyd gwerth 80 miliwn US\$ o ddifrod i'r awyren; yr ail ffrwydrad folcanig mwyaf costus ar ôl mynydd St Helens yn 1980. Felly roedd mabwysiadu dull rhagofalus o beidio â hedfan os oes lludw folcanig wedi ei ganfod yn ymddangos yn gam eithaf synhwyrol.

Fodd bynnag, nid oedd neb (ac nid oes neb o hyd) yn gwybod pa grynodiad o lwch yn union sy'n achosi i beiriant fethu, na sut i fesur yr union grynodiad o ludw ar wahanol uchder mewn amser real. Roedd yn amser caled i Swyddfa Dywydd y DG a buont yn gweithio'n ddiflino i ddatrys y sefyllfa yn 2010. Ar ôl i bron chwe diwrnod pan oedd y gofod awyr wedi ei gau yn llwyr yn dilyn gweithgaredd ffrwydrodd o losgfynydd Eyjafjallajökull yng Ngwlad yr Iâ, ailagorwyd gofod awyr y DG ar 20fed Ebrill 2010. Wrth i bethau ddod yn ôl i drefn, dechreuwyd holi a oedd y gwaharddiad ar hedfan wedi bod yn angenrheidiol ac a oedd wedi parhau yn rhy hir, ac a oedd cyfiawnhad dros y newidiadau yn rheoliadau hedfan y DG. Roedd yr argyfwng wedi dangos hefyd pa mor gydgysylltiedig a bydeang mae ein bywydau. Roeddwn i'n chwilfrydig i ddysgu mwy ac i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, ynghyd â deall pa effaith roedd yr echdoriad wedi ei gael yng Ngwlad yr Iâ hefyd. Felly yn ystod fy nghyfnod sabothol, i fwrdd â mi i archwilio'r mater yn y DG ac yng Ngwlad yr Iâ.

Roedd sefyll o flaen Eyjafjallajökull yn brofiad rhyfeddol, gyda Katla ar un ochr a nifer o losgfynyddoedd actif eraill, gan gynnwys rhai Heimaey a Surtsey, ger yr arfordir. Mae llosgfynyddoedd yn ffrwydro yma bob 4 i 5 mlynedd, ond peidiwch â chael eich twyllo gan luniau hardd o lif lafa, neu hyd yn oed o gymylau lludw, mae un o losgfynyddoedd mwyaf peryglus y byd yma - Lakagigar, neu Laki yn fyr. Yr Athro John Grattan o'n Hadran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear oedd un o'r bobl gyntaf i fod yn ymwybodol o faint difrod y losgfynydd hwn. Roedd nid yn unig wedi ffrwydro a bwrw allan tua 14 km³ o lafa basalt (y bùm i'n gyrru drosto am dros awr) yn ogystal â swm anferth o asid hydrofflorig gwenwynig a chyfansoddion sylffwr deuocsid a laddodd dros 50% o dda byw Gwlad yr Iâ, gan arwain at newyn a



Y meysydd lafa yn ymestyn ymlaen ac ymlaen - golygfa ger Kirkjubæjarklaustur



Llosgfynydd Eyjafjallajökull: 2010 a 2013



Mae llosgfynydd Katla yn gorwedd o dan rewlif Mýrdalsjökull.



Traeth yn Reynisdrangar gyda thywod du a staciau môr basalt.

laddodd bron i 25% o bobl yr ynys. Arweiniodd hyn at fethiant cynydu yn Ewrop ac ar draws Gogledd America, ac mae John yn amcangyfrif i gwmwl marwol Laki ladd 23,000 o ddynion a merched ym Mhrydain, sy'n golygu mai dyma'r trychineb naturiol mwyaf yn hanes modern Prydain. Tra nad yw ond yn fater o amser cyn y gwelir digwyddiad tebyg unwaith eto, mewn lludw roedd fy niddordeb i y tro hwn.

Wrth ymweld â threfi Hvolsvöllur a Kirkjubæjarklaustur daeth yn amlwg mai nid i'r sector hedfan yn Ewrop yn unig roedd y lludw yn syndod (er nad oedd yn syndod mewn gwirionedd – roedd gwyddonwyr a rheolwyr traffig awyr Gwlad yr Iâ wedi bod yn rhybuddio amdano am flynyddoedd), roedd yn syndod i'r bobl leol yn ogystal. Roedd y chwe wythnos o echdoriad Eyjafjallajökull wedi bod yn her anferth i'r ffermwyr oedd wedi eu heffeithio fwyaf. Diflannodd y lliw o'r tirwedd a throdd yn llwyd, ac roedd pob diwrnod yn frwydr gyson i gadw'r ffermydd a'r isadeiledd i fynd. Pum diwrnod oedd hyd ffrwydrad Grímsvötn yn 2011, ond gollyngwyd mwy o ludw yn ystod y 24 awr gyntaf nag yn ffrwydrad Eyjafjallajökull yn gyfan gwbl. Roedd y bobl a ddaliwyd ynghanol y lludw yn dweud na allent hyd yn oed weld eu dwylo. Roeddynt yn hollol ddall, ac yn fyddar gan fod y lludw yn amsugno pob sŵn.

Tra na fu unrhyw un farw o ganlyniad i'r lludw, mae'n amlwg iddo gael effaith economaidd a seicolegol sylweddol ar y boblogaeth leol. Bùm yn gwylio ffilm ffantastig o'r enw 'Ash' a gyfarwyddwyd gan Herbert Sveinbjörnsson ac yn mwynhau 'ci poeth' - un o bleserau traddodiadol Gwlad yr Iâ ar yr un pryd. Mae'r ffilm yn olrhain tynged tri theulu yr oedd eu ffawd wedi newid er gwell ac er gwaeth dros gyfnod o dair blynedd, yn wahanol iawn i'r stori ariannol werth ei chofnodi a gafwyd yma yn y DG. Nid ar chwarae bach y llwyddwyd i glirio 400 tunnell fetrig o ludw o un fferm.

Tra bod fy ymchwil yn amcanu at ddeall a gwerthuso'r system rhybuddio brys a ddefnyddiwyd yn ystod argyfwng lludw Eyjafjallajökull, sydd nawr yn cael ei safoni'n fyd-eang gan y Gyfundrefn Hedfan Sifil Ryngwladol (ICAO), mae'n amlwg bod Gwlad yr Iâ yn gryn fgygythiad nid yn unig i'r DG, ond i'r holl fyd. Fodd

bynnag, mae hefyd yn darparu cyfleoedd prin i ni gael gweld a phrofi rhai o'r ymoedd pennaf natur. Ymhlith y bobl y bùm i'n eu cyfwrdd, gan gynnwys rhai yr effeithwyd fwyaf arnynt gan y ffrwydradau, roedd pob un ohonynt yn arswydo rhag y ffrwydradau. Mae'r llosgfynyddoedd hyn a'r rhyngweithiad rhyngddynt a rhewlifoedd (sy'n aml yn creu lludw mân) yn llunio'r tirlun mewn modd dramatig a thra anghyffredin, gan wneud Gwlad yr Iâ yn drysor daearegol gwirioneddol sy'n newid yn gyson. Os na fuoch chi yno, byddwn yn eich argymhell i fynd.

Ar Lannau'r Gamwy – Hywel Griffiths a Stephen Tooth

Mae Hywel Griffiths a Stephen Tooth wedi ennill grant gan y British Academy er mwyn ymchwilio i'r addasiadau i eithafion hydrolegol ym Mhatagonia. Bydd prosiect 'Cofio cymdeithas hydrograffig: llifogydd, sychder, addasiad a diwylliant yng Ngwladfa Gymraeg Patagonia, yr Ariannin' yn archwilio cofnodion o eithafion hydrolegol yn llenyddiaeth (llythyron, dyddiaduron, cerddi) gwladfawyr cynharaf Patagonia a'u disgynyddion. Bydd Hywel a Stephen hefyd yn cyfweid ag aelodau o boblogaeth Patagonia sydd yn siarad Cymraeg heddiw er mwyn archwilio eu canfyddiadau o lifogydd a sychder, rôl afonydd a dŵr yn hanes y rhanbarth, ac os yw atgofion am lifogydd a sychder sydd wedi cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth yn dylanwadu ar agweddau cyfredol at yr amgylchedd. Mae'r prosiect yn gyfle arbennig am ddau reswm: i) yn 2015 dethlir 150 mlynedd ers y Glaniad cyntaf ar lannau sych Patagonia (1865); ii) o ystyried pryderon diweddar ynglŷn ag addasiadau diwylliannol i newid hinsawdd, efallai gall profiadau'r gwladfawyr cynnar Cymreig wrth addasu yn gyflym i amgylchedd estron Patagonia gynnig persbectif newydd gwerthfawr.



Profiad 'Operation Iceberg'

cyfweiliad gyda
Dr Alun Hubbard

Beth oedd holl bwrpas 'Operation Iceberg'?

Menter gan y BBC oedd hi a ffilmwyd yn haf 2012 yn Grønland mewn arddull "pry ar y wal" i ddangos sut y mae mynyddoedd iâ mawr yn ymrannu oddi wrth wyneb rhewlifoedd anferth a pha mor bell y mae gwyddonwyr yn fodlon mynd er mwyn cael ymddangos ar y teledu.



Pam?

Cwestiwn da – am ei fod yno? Am fod yn rhaid i'r BBC wneud pethau newydd er mwyn denu gwylwyr? Am nad ydw i'n gwybod sut i wrthod?

Beth oedd y peth gorau ynglŷn â ffilmio ar gyfer 'Operation Iceberg'?

Bod y BBC yn talu (ac yn yswirio!) i mi, y cwch a'r criw i wneud rhywbeth gwyddonol blaenllaw hynod o gyffrous yn ymwneud â wyneb ymrannu Rhewlif Store yn ystod yr haf poethaf a gofnodwyd pan oedd y llen iâ yn cwmpo'n ddarnau o'n cwmpas.

Beth oedd y peth anoddaf/ mwyaf brawychus/ gwaethaf ynglŷn â ffilmio ar gyfer 'Operation Iceberg'?

Gweithio gyda thîm teledu mawr – nid unrhyw unigolyn – dim ond bod 28 o'r 'cyfryngis' yma yn rhedeg o gwmpas un o'm hoff fannau oer ar y blaned... mae hyn braidd yn dorcalonnus ond nid yw'n para'n rhy hir, diolch i'r drefn.





Sut rai oedd y criw ffilmio?

Yr un fath ag unrhyw griw ffilmio... unrhyw dim mawr... y gorau o'r goreuon a'r gwaethaf o'r gwaethaf... rhai pobl ryfeddol - Doug Allen, Chris Packham, cynhyrhydd y gyfres - Andrew Thompson... pobl anhygoel o dalentog ac ymroddedig gydag amynedd diddiwedd, sensitifrwydd a pharch i'r amgylchedd naturiol, ac yn gwybod sut i weithio ynddo a chael y llun... ac yna roedd y rhai eraill. Dyw hynny ddim yn gwbl deg - roeddwn i'n hoffi pob un ohonynt - maent i gyd yn dda iawn yn eu hamryfal swyddi - ond doeddwn i ddim yn gweld y pwynt o'u cael i gyd yno yn y camp a phob un yn cystadlu i gael ei big i mewn. Tlws popeth bychan, maen nhw'n dweud, ac roedd 'Operation Iceberg' ryw ychydig bach dros ben llestri. Fe fydden nhw wedi cael llawn cymaint o luniau trawiadol gyda hanner y criw... y rhewlif a'r lleoliad oedd sêr y sioe... mae pobl yn tueddu i anghofio hynny pan maent yno - ond allech chi byth fethu â llwyddo o gofio'r amodau rhyfeddol roedden ni'n ddigon ffodus i'w mwynhau.

Oeddech chi wedi bod yn Grønland o'r blaen?

Oeddwn... er mor chwithig yw cyfaddef hynny - yn ystod y 6 mlynedd ddiwethaf mae'n debyg i mi dreulio traean o'm hamser yno ... ac mae hynny'n adlewyrchiad digon gwael ar fy mywyd domestig a'm gwyliau haf.

Oes rhywun wedi gofyn am eich llofnod ar ôl eich ymddangosiadau ar y teledu yn ddiweddar?

Ymmm... nac oes, diolch i'r drefn - mae un rhewlifwr blewog yn edrych yn ddigon tebyg i unrhyw rhewlifwr blewog arall ... rydw i'n ceisio edrych yn debyg i fy 'guru', yr Athro Glasser... fe wn i ei fod e'n dipyn o ffefryn gyda'r merched. Ar ôl dweud hynny, fe wnes i dderbyn rhai e-byst digon cas (yn ymwneud â newid hinsawdd) a hefyd rai e-byst digon hy yn fy ngwahodd i ar ddêt. Rhyfedd o fyf!

Fydech chi'n gwneud yr un peth eto?

Roedd 'Operation Iceberg' yn raglen ddogfen eithaf llwyddiannus, ac erbyn hyn mae hi wedi

ennill nifer o wobrau gan gynnwys 'Y Rhaglen Ddogfen Orau' yng Ngŵyl Ffilmiau Jackson Hole... Felly mewn blwyddyn neu ddwy, dyna ddwy raglen ddogfen arobryn lwyddiannus gan y BBC yn rhoi llawer o sylw i Grønland ac i Brifysgol Aberystwyth - ac mae hynny'n dda o beth ond rwy'n amheus a yw dal i'w wneud yn ddoeth - dydw i'n sicr ddim yn chwilio am ragor. Fe wnes i'r rhaglenni hyn am fy mod yn teimlo y byddai hynny'n rhan o'r pecyn estyn allan ar gyfer ein prosiectau sy'n cael eu hariannu gan y Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol (NERC) ac i'r graddau y cyflawnwyd hynny - yna roeddynt yn wych! Ond pan fydd pobl y cyfryngau yn ymwneud â'r peth, cytundeb a wneir â'r diafol ydyw mewn gwirionedd ac os nad ydych chi'n rheoli'r hyn rydych chi'n ei wneud, fe fyddant yn sicr yn cymryd drosodd ac yna gall pethau fynd o chwith. Credaf mai'r rheswm pam i Gambo - y cwch a'r criw o Aberystwyth a'r dilyniannau - wneud cystal argraff yn 'Operation Iceberg' a 'Frozen Planet' - oedd fy mod i wedi mynnu mai unwaith ac unwaith yn unig roeddynt i ffilmio ... dim ail gynnig, dim sefyllfaoedd wedi eu ffugio. Roedd ein gwaith/ymatebion i gyd yn ddigymell, heb ddim ysmalio - dydw i ddim yn actor o unrhyw fath - felly pan mae rhywun yn ceisio gwneud rhywbeth dan straen (megis llywio cwch yng nghanol pacrew trwchus, neu'n ceisio adennill/gosod offer gwyddonol costus o dan amgylchiadau anodd) gyda chamera yn eich wyneb - mae dyn yn dueddol o siarad yn gwbl blaen heb flewyn ar dafod. Dydw i ddim yn hoffi cael fy nhrin yn nawddoglyd gan gyflwynwyr teledu ac rwy'n credu y gall cynulleidfa synhwyro sefyllfa ffug o bell - o ganlyniad, ar y cwch ac wrth ein gwaith - un cyfle yn unig a gâi'r criw ffilmio i ddal yr hyn oedd yn digwydd, a dyna hi... oherwydd hynny roeddynt yn cael blas ar berygl go iawn, ac mae'n wir ein bod ar adegau yn edrych ddigon rhyfedd, ond dyna fel yr oedd pethau ac roedden ni i gyd yn gallu mynd adref yn gynt ac yn llawer iawn hapusach ... ac eto Rhewlif Store a Grønland oedd yn perfformio yn y ddwy raglen. Rwy'n teimlo'n bur falch am fy mod wedi cael y fraint o weithio yno.




'Hunan-lun' gyda Chris Packham

Newyddion Adrannol

Fel un o adrannau Daearyddiaeth fwyaf y DG, mae gennym ni ddigon o newyddion i'w hadrodd, a dyma ddim ond rhai uchafbwyntiau i roi i chi flas ar Aberystwyth.

Ar gyfer y Silff Lyfrau:




Remote Sensing of Energy Fluxes & Soil Moisture Content

**Golygwyd gan
Dr George P. Petropoulos**

Mae'r llyfr yn amcanu at ddarparu golwg gyffredinol ar sefyllfa ddiweddaraf y dulliau a'r technegau a ddefnyddir er mwyn cael amcan gofod-amser o fflycsau ynni a lleithder arwyneb pridd o ganlyniad i synhwyro o bell. Yn gyffredinol, mae'r llyfr yn integreiddio degawd o ymchwil a gyflawnwyd gan wyddonwyr blaenllaw

yn y maes ac yn casglu tair math o erthygl: (1) erthyglau adolygu cynhwysfawr gan awdurdodau blaenllaw yn archwilio datblygiad y cysyniadau, y dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd wrth gasglu fflycsau gwres arwyneb tir yn ogystal â lleithder arwyneb pridd cae, rhanbarth a graddfa fawr gan roi pwyslais arbennig ar dechnegau yn manteisio ar dechnoleg Arsylwi ar y Ddaear (EO); (2) erthyglau gyda ffocws arbennig sy'n darparu dirniadaeth fanylach o egwyddorion a gweithrediad rhai o'r dulliau a ddefnyddir fwyaf gydag astudiaethau achos sy'n dangos yn uniongyrchol gymhwysedd eang synhwyro o bell ar gyfer meintoli a dadansoddi fflycsau arwyneb a lleithder pridd, neu erthyglau yn trafod materion penodol yn ymwneud ag adfer y paramedrau hynny o'r gofod, a (3) erthyglau gyda ffocws arbennig yn integreiddio gwybodaeth gyfredol a dealltwriaeth wyddonol o synhwyro fflycsau ynni a lleithder pridd o bell gan bwysleisio'r prif faterion, yr heriau a'r rhagolygon technoleg EO yn y maes y mae'r llyfr yn canolbwyntio arno.



Environmental Transformations

Mark Whitehead

Mae *Environmental Transformations* yn cynnig cyflwyniad cryno a hygyrch i'r ymarferion a'r systemau sy'n cynnal yr Anthroposîn. Mae'n cyfuno disgrifiad o'r cylch carbon, cydbwysedd gwres byd-eang, entropi, ecoleg fforestydd, a phriddeg, gyda damcaniaethau demograffi, rhyfel, cyfalafiaeth

didiwydiannol, datblygiad dinesig, damcaniaeth gwladwriaeth a seicoleg ymddygiadol. Mae'r llyfr hwn yn olrhain rôl arbennig daearyddiaeth a daearyddwyr yn astudiaeth newid amgylcheddol a'r bobl sy'n ei yrru. Mae'n darparu adolygiad o ddamcaniaethau beirniadol a all helpu i ddatgelu'r ffactorau economaidd gymdeithasol a gwleidyddol sy'n dylanwadu ar newid amgylcheddol. Mae hefyd yn archwilio materion allweddol mewn astudiaethau amgylcheddol cyfoes, megis y deunydd o adnoddau, prinder dŵr, newid hinsawdd, llygredd didiwydiannol a datgoedwigo. Caiff y materion hyn eu 'mapio' drwy gyfres o astudiaethau achos daearyddol er mwyn darlunio gwerth arbennig syniadau daearyddol, o ofod, lle a graddfa, wrth ddatgelu natur gymhleth newid amgylcheddol mewn gwahanol gyd-destunau

economaidd gymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol. Yn olaf, mae'r llyfr yn ystyried y gwahanol ffyrdd y mae cenedloedd, cymunedau ac unigolion ar draws y byd yn addasu i newid amgylcheddol yn yr unfed ganrif ar hugain.




Natural Hazards and Disaster Risk Reduction: Putting Research into Practice

Golygwyd gan Carina Fearnley, Emily Wilkinson, Catherine J. Tillyard, Stephen J. Edwards

Drwy adeiladu ar gyflwyniadau a wnaed yn ystod y gynhadledd ar 'Lleihau Risg Trychineb yn achos Peryglon Naturiol: Rhoi Ymchwil ar Waith' a gynhaliwyd yng Ngholeg Prifysgol Llundain yn Nhachwedd 2009, mae'r erthyglau a gasglwyd yn y llyfr


hwn yn archwilio sut y mae ymchwil peryglon naturiol yn cael ei gyrchu a'i ddefnyddio gan ymarferwyr a rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac i'r gwrthwyneb, sut mae polisi ac ymarfer yn ysbrydoli ymchwil. Drwy ddod â daliadau o asiantaethau dyngarol a datblygu, academia, busnes, llywodraeth a chyrrff ariannu at ei gilydd, mae'r erthyglau yn amlygu'r angen am ragor o ddeialog, dealltwriaeth a chydweithio rhwng yr holl sectorau hyn os yw ymchwil am fod yn berthnasol ac am gael effaith sylweddol ar bolisi ac ymarfer lleihau risg. Rhaid datrys y materion hyn er mwyn sicrhau y bydd trafodaethau yn y pen draw, ac yn fwyaf arwyddocaol, yn troi yn weithredoedd ymarferol cadarnhaol fel y bydd ymchwil i beryglon naturiol yn berthnasol ac yn addas. Mae'r gyfrol hon yn gam ar y daith honno.



The Routledge Handbook of Mobilities

Golygwyd gan Peter Adey, David Bissell, Kevin Hannam, Peter Merriman a Mimi Sheller

Mewn blynyddoedd diweddar mae diddordeb cynyddol mewn mudoledd wedi ymddangos yn y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau. Mae Peter Merriman yn un o bump golygydd *The Routledge Handbook of Mobilities*, cyfrol ryngddisgyblaethol yn cynnwys dros drigain pennod ar themâu yn amrywio o symudedd rheilffyrdd, ffyrdd, plant a thwristiaid, i symud gwastraff, bwyd, afiechydon a gwybodaeth.




Changing Behaviours

Rhys Jones, Jessica Pykett a Mark Whitehead

Mae '*Changing Behaviours*' yn olrhain ymddangosiad yr agenda newid ymddygiad yng ngwneuthuriad polisi cyhoeddus yn y DG ers diwedd yr 1990au. Drwy olrhain dylanwad y gwyddorau ymddygiadol ar lunwyr polisiâu Whitehall, mae'r awduron yn archwilio uniongrededd seicolegol newydd mewn ymarferion llywodraethu. Gan droi at


ddeunydd empeiraidd gwreiddiol, ceir penodau yn archwilio effaith polisiâu newid ymddygiad ym meysydd iechyd, cyllid personol a'r amgylchfyd. Mae'r llyfr amserol a chraff hwn yn dadansoddi sut mae natur yr unigolyn ei hun yn cael ei ailddychmygu drwy newid ymddygiad ac mae'n datblygu fframwaith ddadansodol ar gyfer gwerthuso moeseg, effeithiolrwydd a grym potensial newid ymddygiad.



From Above

Golygwyd gan Peter Adey, Mark Whitehead a Alison J. Williams

Daeth ymddangosiad y balŵn erostatig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg â phersbectif newydd i faes brwydrau, gan ddisodli'r bryn – ar gyrion maes y gad – a'r tŵr caerog. Ers hynny ni bu unrhyw berspectif mwy dinistriol mewn rhyfel, trais a diogelwch na'r un o'r awyr. Mae *From Above* yn archwilio'r lluniau o'r awyr yn fanylach nag erioed. Mae'n bwrw golwg fanwl iawn ar astudiaethau o'r persbectif o'r awyr heddiw ac ar archwiliadau empeiraidd o'r olygfa o'r awyr o'r gorffennol. Ceir penodau yn archwilio ystod o astudiaethau achos ac enghreifftiau, o Fietnam a'r golygfeydd o falwnau, cuddliw, plismona trefedigaethol hyd ryfeloedd dronau heddiw. Mae'r cyfranwry yn tynnu ar berspectifau o hanes, cydberthynas y gwledydd, daearyddiaeth, geowleidyddiaeth ac astudiaethau diwylliannol er mwyn darparu persbectif rhyngddisgyblaethol gwirioneddol ar yr olygfa oddi uchod. Maent hefyd yn ystyried yr olygfa oddi uchod mewn perthynas a'i thechnolegau, ei chyfreithlondebau, ei hymarferion, ei hathrawiaethau a'i diwylliant gwledol.




Water Worlds

John Anderson a Kimberley Peters

Mae'r llyfr hwn yn herio diddordeb daearyddiaeth yn y daearol yn unig, ac yn archwilio *terra incognita* y moroedd a'r cefnforoedd. Drwy gysylltu â dadleuon damcaniaethol newydd sy'n llunio'r ddisgyblaeth daearyddol (megis affaith, cyfodiad, ysmudiad, croesrywedd a'r 'mwy-na-dynol'), mae'r gyfrol hon yn datgelu gwybodaeth newydd yn ymwneud â daearyddiaethau dynol gofod cefnforoedd. Mae'r llyfr yn gollwng gafael ar gysyniadau sefydlog, ffiniedig a phenodol o ofod ac yn ymestyn dealltwriaeth daearyddol seiliedig ar y byd fel 'yn gymwys', newidiol, mudol ac ymdeithiol. Mae'r ontoleg hon yn cefnogi'r syniad bod y cefnforoedd yn fwy na dim ond hylif yn yr ystyr lythrennol, ond mewn ystyr gysyniadol yn ogystal, sy'n awgrymu bod gan y moroedd eu natur hylif eu hunain – eu cyneddfau a'u hasiantaethau eu hunain – sy'n cael eu cydlunio gyda bywyd cymdeithasol a diwylliannol.

Darlithwyr Newydd



Uwch-ddarlithydd a benodwyd yn ddiweddar i'r ADGD yw **Mitch Rose**. Yn wreiddiol o Detroit, daeth i'r DG yn 1998 i gwblhau doethuriaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Mae wedi dal swyddi eisoes ym Mhrifysgolion Nottingham a Hull lle roedd yn dysgu daearyddiaeth ddiwylliannol, dehongli tirlun, damcaniaeth ddiwylliannol a diwylliant a gwleidyddiaeth y byd Moslemaidd. Ei brif faes ymchwil yw'r gwrthdaro diwylliannol a gwleidyddol ynglŷn â chadwraeth treftadaeth yn yr Aifft, er bod llawer o'i gyhoeddiadau yn rhoi sylw i'w ddi-ddordeb maith mewn damcaniaeth ddiwydiannol a'r berthynas rhwng ffenomenoleg ac ôl-strwythuriaeth. Am ragor o wybodaeth am Mitch a'i ymchwil ewch i'w wefan yn www.lostgeographer.com



Ymunodd **Elizabeth Gagen** â'r Adran ym mis Medi, ar ôl dysgu cyn hynny ym Mhrifysgolion Hull a Manceinion. Mae ei gwaith yn archwilio

daearyddiaethau hanesyddol plentyndod ac adloniant, gan ganolbwyntio yn arbennig ar rôl gwybodaeth seicolegol wrth lunio amgylcheddau trefol a thechnolegau llywodraethu. Mae ei gwaith mwy diweddar yn troi at bolisi addysg cyfoes i archwilio'r themâu hyn. Mae'r gwaith hwn yn archwilio addysg emosiynol, yn arbennig ymdrechion i ddysgu llythrennedd emosiynol, fel technoleg lywodraethol y mae iddi oblygiadau i'r ffyrdd ymaerhyw, dinasyyddiaeth a dosbarth yn cael eu dychmygu.



Penodwyd **Richard Williams** yn ddarlithydd mewn Dynameg Basn Afonydd a Hydroleg yn Chwefror 2013.

Mae'n ymddiddori mewn efelychu'n rhifiadol forffoddynameg afonydd, a'r defnydd o dechnolegau newydd i fonitro esblygiad tirffurfiau afonol, adfer afonydd a risg llifogydd. Graddiodd Richard ym Mhrifysgol Caergrawnt ac enillodd ei radd Meistr ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Yna treuliodd bedair blynedd gyda JBA Consulting, cwmni rheoli risgiau sy'n arbenigo mewn risgiau llifogydd. Dechreuodd Richard weithio ar gyfer ei ddoethuriaeth yn yr Adran yn 2009. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu modelau rhifiadol i efelychu llif, trosglwyddiad gwaddo a newid morffolegol mewn afonydd plethog. Caiff y gwaith modelu rhifiadol hwn ei danategu gan ddata crynodiad uchel sy'n deillio o gyfres o ymgyrchoedd maes yn Seland Newydd sydd wedi monitro esblygiad Afon Rees blethog. Mae Richard yn aelod o Sefydliad Siartredig Rheolaeth Amgylcheddol (MCIWEM), ac yn Wyddonydd Siartredig (CSci), yn Amgylcheddwr Siartredig (CEnv) ac yn Rheolwr Dŵr ac Amgylchedd Siartredig (C.WEM).



Dechreuodd **Sophie Wynne-Jones** weithio fel darlithydd yn ADGD ar ôl bod yn gweithio am dair blynedd i Arsyllfa Wledig Cymru, lle roedd hi'n gwneud ymchwil polisi ar

ddefnyddio tir gwledig ar gyfer llywodraeth Cymru. Yn fras, mae hi'n ystyried ei hun fel ymchwilydd, ysgrifennwr ac addysgwr sy'n gweithio ym meysydd ecoleg-wleidyddol, bwyd ac amaeth, y drefn lywodraethol ac astudiaethau polisi. Mae hefyd ganddi

gefndir mewn addysg awyr agored ac amgylcheddol, ac mae hi wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth John Muir, y Mudiad Trawsnewid Trefi, 'Climate Camp Cymru' a'r 'Common Cause Network'. Pan nad yw Sophie yn y swyddfa mae hi yn ei thŷ gwydr, yn crwydro'r mynyddoedd neu yn cerdded ar hyd glan y môr.



Penodwyd **Jesse Heley** yn ddarlithydd mewn Daearyddiaeth Ddynol ar ôl gweithio cyn hynny fel Cydymaith Ymchwil yn ADGD. Gyda BA, MA a PhD


mewn Daearyddiaeth Ddynol – y cwbl o Aberystwyth – mae ganddo gysylltiadau maith gyda'r adran a'r brifysgol yn gyffredinol. Mae prif ddiddordebau ymchwil Jesse yn ymwneud â natur newidiol cymunedau gwledig a rôl dosbarth cymdeithasol, er i'w waith ganolbwyntio ar ystod eangach o feysydd perthynol (ac heb fod mor berthynol). Ymhlith y rhain mae llywodraethu rhanbarthol a chynllunio gofodol, gwleidyddiaeth gweithio traws-sefydliadol, y cysylltiadau rhwng cerddoriaeth ac economïau lleol, a lle'r ymchwilydd mewn gwaith maes ethnograffig. Yn fwy diweddar a chan adeiladu ar ei brofiadau fel aelod o Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), mae ymchwil Jesse (ar y cyd â Dr Laura Jones) wedi canolbwyntio ar rôl pobl hŷn wrth iddynt gynnal a chyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth yng nghefn gwlad. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf bydd Jesse yn dysgu ar draws ystod o fodiwlau israddedig ac ôlraddedig, ac yn gweithio fel Cyd-ymchwiliwr gyda'r Athro Michael Woods ar brosiect a ariannir gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd yn ymwneud â Newid Gwledig a Datblygiadau mewn Globaleiddio.

BSc Gwyddor Daear Amgylcheddol
BSc Daearyddiaeth
BSc Geography
BA Daearyddiaeth Ddynol
BSc Daearyddiaeth Ffisegol

 www.facebook.com/AUIGES

 @AU_DGES

O amgylch y Byd mewn 360 Credyd



D**A**RGANFOD

DI**D**DORI

BYWIO**G**I

YSBRY**D**OLI

Aberystwyth ar y brig yng Nghymru o ran Profiad i Fyfirwyr

THE TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2013

Ymholiadau Derbyn Israddedigion:
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Prifysgol Aberystwyth, Adeilad Llandinam, Campws Penglais
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DB, Cymru

Ffôn: (0)1970 622596
Ffacs: (0)1970 622659
E-bust: iges-admissions@aber.ac.uk